



Tlodi yng Nghymru 2025

Canllaw hanfodol i
ddeall tlodi yng Nghymru

JOSEPH ROWNTREE FOUNDATION

Cynnwys

Diolchiadau	3
Rhagair	4
Crynodeb Gweithredol	5
Tueddiadau mewn tlodi	10
Y profiad o fod mewn tlodi	55
Atodiadau	72
Nodiadau	81
Cyfeiriadau	82

Diolchiadau

Diolch i dîm cyfan Sefydliad Joseph Rowntree Foundation (JRF) a weithiodd ar yr adroddiad gan gynnwys: Taha Bokhari, Scot Hunter, Francisca Ladouch, Peter Matejic a Sam Tims. Diolch i Steffan Evans a Victoria Winckler o Sefydliad Bevan am eu cymorth wrth lunio'r adroddiad hwn.

Rhagair

gan Victoria Winckler, Cyfarwyddwraig, Sefydliad Bevan

Ugain mlynedd yn ôl, cafodd adroddiad cyntaf JRF ar dlodi yng Nghymru fod gostyngiad parhaus i'w groesawu mewn tlodi ers canol y 1990au. Dydy ei ddadansoddiad diweddaraf ddim yn cynnwys newyddion da, gyda chyfraddau tlodi wedi aros yn eu hunfan yn y ddau ddegawd ers hynny. Mae hynny'n ddigon gwael, ond yr hyn sy'n achosi'r pryder mwyaf ydy'r cynnydd mewn tlodi dybryd. Heddiw, mae incwm bron i hanner y bobl sydd mewn tlodi yng Nghymru mor isel yn golygu eu bod yn y sefyllfa eithafol hon: A hynny'n golygu bod rhaid i fwy o bobl droi at fanciau bwyd, ddim yn gallu gwresogi eu cartrefi neu fyw mewn llety dros dro. Mae cost dynol tlodi, yn enwedig tlodi difrifol a'i effaith ar wasanaethau cyhoeddus yn enfawr.

Sail y methiant cymdeithasol hwn yn y 21 ganrif ydy blynyddoedd o doriadau dwfn mewn nawdd cymdeithasol, ynghyd â phrinder o swyddi cymwys a thai fforddiadwy. Wrth gwrs, cyfrifoldeb Llywodraeth y DU ydy sicrhau system nawdd cymdeithasol deg a digonol, ond gall Llywodraeth Cymru wneud llawer i ategu system y DU. Mae gan ei grantiau a'i lwfansau datganoledig ei hun rôl allweddol i'w chwarae ond mae diddymu rhwystrau rhag gweithio, cynyddu nifer ac ansawdd swyddi a sicrhau bod digon o dai cymwys yn hanfodol hefyd. Er bod y camau sydd eisoes wedi'u gweithredu, megis darparu cymorth arian brys o'r Gronfa Cymorth Dewisol, cynnig rydau ysgol am ddim (FSM) ar gyfer plant ysgol gynradd a chynyddu Lwfans Cynhaliaeth Addysg i'w croesawu, mae llawer mwy eto i'w wneud.

Yn niffyg gweithredu, mae'r rhagolygon hyd yn oed yn fwy heriol. Mewn man arall, mae JRF wedi rhagweld y bydd tlodi plant yn Nghymru yn codi i un o'r cyfraddau uchaf yn y DU erbyn 2029. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys rhybuddion o broblemau yn y dyfodol: mae'r rhain yn cynnwys oedolion anabl mewn tlodi, ac mewn amser yn datblygu'n bensiynwyr anabl; a'r rhai sydd berchen ar eu cartrefi ond yn byw mewn tlodi. Mae tlodi yn fater o bwys. Mae'n bodoli ymhob cymuned yng Nghymru ac ymhlith pobl o bob oed, o bob cefndir ac ymhob math o deuluoedd. Mae'n difetha bywydau ac yn gost i bwrs y wlad. Mae'n warth moesol. Â llai na blwyddyn i fynd cyn etholiad nesaf y Senedd, rydyn ni'n edrych ymlaen i bleidiau gwleidyddol ystyried mater tlodi o ddifri ac ymrwymo i weithredu camau uchelgeisiol ond eto'n ymarferol i wyrddroi'r sefyllfa.

Crynodeb Gweithredol

Tlodi yn dwysáu yng Nghymru

Prin fu'r cynnydd i geisio gostwng tlodi yng Nghymru dros yr 20 mlynedd diwethaf, gyda chyfraddau tlodi yn hofran o gwmpas 21-22%. Ar hyn o bryd mae dros 1 o bob 5 unigolyn yng Nghymru (22%) yn byw mewn tlodi, cyfanswm o 700,000 o unigolion. Mae hyn yn cynnwys 400,000 o oedolion oed gweithio, 200,000 o blant a 100,000 o bensiynwyr yn byw mewn tlodi yn 2021-24. Dros y 30 mlynedd diwethaf, mae plant wedi wynebu'r cyfraddau uchaf o dlodi yn gyson, gyda chyfraddau tlodi pensiynwyr ar hyn o bryd yn is nag oedolion oed gweithio, rhai gyda phlant neu heb rai.

Rhwng 2020-23, roedd bron i hanner miliwn o bob yng Nghymru yn byw mewn tlodi dwys, gyda 310,000 mewn tlodi dwys iawn. Mae tlodi wedi dwysáu dros y blynyddoedd gyda'r cyfran o bobl mewn tlodi dwys iawn yn codi o 33% yn 1994-97 i 47% yn 2020-23. Mae'r bwlch cynyddol rhwng incwm teuluoedd a llinell drothwy tlodi yn amlygu difrifoldeb dwysach y tlodi yng Nghymru. Rhwng 2020-23, byddai angen £13,500 y flwyddyn ychwanegol ar bâr gyda 2 blentyn oed ysgol gynradd yn byw mewn tlodi dwys er mwyn iddyn nhw gyrraedd y trothwy tlodi – yn codi o'r £8,000 rhwng 1994-97, cynnydd o ddau draean – ac fe wynebodd teuluoedd mewn tlodi dwys ddiffyg ariannol o £10,900. Mae'r dwysáu hyn mewn tlodi yn peri pryder mawr ac yn dangos pa mor bwysig ydy hi bod darpar benderfyniadau gwleidyddol a newidiadau economaidd o fantais i bobl yn y tlodi mwyaf dybryd yn hytrach na chael eu heffeithio'n negyddol ac anghymesur. Mae hefyd yn amlygu'r sialens sy'n wynebu Llywodraeth Cymru. Efallai bod y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu gweithredu yn golygu rhagor o arian ym mhocedi pobl, ond mae'n anodd iawn gostwng cyfraddau sylfaenol tlodi yn erbyn cefndir o'r fath.

Ystyried effaith anwastad tlodi

Mae rhwystrau rhag gweithio yn gyrru tlodi ar gyfer pobl anabl a gofalwyr yng Nghymru

Cyfradd tlodi ar gyfer unigolion anabl yng Nghymru ydy 32%, yn sylweddol uwch na'r 22% ar gyfer pobl heb fod yn anabl. Mae'r gwahaniaeth hyd yn oed yn fwy amlwg ymhlith oedolion oed gweithio, gyda 37% o oedolion anabl oed gweithio bron ddwbl y gyfradd o 19% ymhlith oedolion oed gweithio heb fod yn anabl. Yn rhannol, y rheswm dros y risg uwch hwn o dlodi ymhlith pobl anabl ydy'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag anabledd a salwch a hefyd yn rhannol gan y rhwystrau y mae pobl anabl yn eu hwynebu rhag gweithio. Mae hyn hefyd yn amlygu'r posibilrwydd o effeithiau difaol lefel y newidiadau i gymhwyster ar Daliadau Annibyniaeth Personol a'r newidiadau i gymhwyster a chyfraddau elfennau cysylltiedig â salwch o'r Credyd Cynhwysol (UC) a fydd yn cynyddu tlodi yn y DU hyd at 400,000 o bobl.

Gyrrwr allweddol cyfraddau tlodi uwch ydy'r cyfradd is o ran cyflogaeth ymhlith unigolion anabl a theuluoedd gydag aelod anabl. Dim ond 41% o oedolion anabl oed gweithio yng Nghymru sy'n gyflogedig, o'i gymharu â 80% o oedolion oed gweithio heb fod yn anabl. Mae cyfraddau cyflogaeth hefyd yn amrywio'n sylweddol rhwng y rhai â gwahanol anableddau: 38% ar gyfer y rhai â chyflwr meddwl hirdymor, 48% ar gyfer y rhai ag anableddau corfforol a 61% ar gyfer y rhai gydag anableddau eraill. Mae'r gwahaniaethau hyn mewn cyflogaeth yn cyfrannu'n sylweddol i gyfraddau uwch pobl anabl, ac mae'n hanfodol bod y cyllid ychwanegol ar gyfer cymorth cyflogaeth yn cael eu ddefnyddio'n effeithiol.

Yn yr un modd, mae gofalwyr answyddogol yn fwy tebygol o fod yn byw mewn tlodi (31% yn erbyn 22%). Yn aml, maen nhw'n cael trafferth i gydbwyso gwaith a gofal, i wynebu costau ychwanegol a phrofi canlyniadau iechyd gwaeth; mae 1 o bob 10 oedolyn (250,000) yn ofalwyr answyddogol, gyda 70% yn byw mewn teuluoedd gydag aelod anabl. Menywod oed gwaith ydy'r mwyafrif o ofalwyr, gyda bron i 60% yn cynnig gofal am lai na 35 awr yr wythnos a thros 40% am 35 awr neu fwy.

Mae cynnwys ac oed aelodau teulu yn gyrru cyfraddau tlodi yng Nghymru

Mae cyfraddau tlodi yng Nghymru yn dangos gwahaniaethau pwysig ar draws gwahanol fathau o deuluoedd a hynny'n adlewyrchu tueddiadau ehangach y DU. Mae teuluoedd mwy o ran maint, teuluoedd rhiant sengl a theuluoedd gyda phlant iau yn wynebu cyfraddau tlodi uwch. Ceir y cyfraddau uchaf o dlodi ymhlith oedolion oed gwaith gydag oedolion dros 60 oed (26%) a'r rhai rhwng 16 a 29 oed (24%) oed. Cyfradd tlodi plant mewn teuluoedd â 3 neu fwy o blant ydy 43%, sy'n sylweddol uwch na'r rhai mewn teuluoedd gydag 1 neu 2 o blant (23% ac 18%, yn y drefn honno), ac mae'r cyfyngiad 2 blentyn, sy'n cyfyngu ar gymhwyster ar gyfer budd-daliadau seiliedig ar incwm i'r 2 blentyn cyntaf mewn teulu, yn chwarae rôl allweddol yn cynyddu'r gwahaniaeth. Mae cyfraddau tlodi hefyd yn amrywio yn ôl oed y plant; gyda 40% o blant o dan 5 oed yn byw mewn tlodi o'i gymharu â 28% ar gyfer plant rhwng 5 a 10 oed a 23% ar gyfer plant rhwng 11 ac 19 oed.

Mae cyfraddau tlodi yn amrywio'n sylweddol iawn, yn ôl deiliadaeth ac yn arbennig o uchel ymhlith pobl sy'n rhentu. Rhwng 2020 a 2023, roedd dros 4 o bob 10 o rentwyr cymdeithasol (46%) a thraean o rentwyr preifat (31%) mewn tlodi ar ôl costau byw.

Gallwn weld canlyniadau tlodi yn glir mewn data ar y defnydd o fanciau bwyd neu ar y rhai sy'n cael trafferth i fforddio hanfodion, a rhwng Mai 2021 a Medi 2024, pan effeithiodd cyfnod gwaetha'r argyfwng chwyddiant ar incwm teuluoedd, weithiau neu bob amser, dyblodd cyfran o oedolion Cymru a nododd nad oedden nhw'n gallu fforddio hanfodion o 8% i fod yn 15%. Mae data y Cyngor ar Bopeth hefyd yn amlygu cynnydd dramatig yn nifer y bobl sy'n ceisio help gyda dyledion ynni – ymchwyddodd yr achosion hyn o 144% rhwng 2019 a 2024. Yn olaf, os ydyn ni'n cymharu'r newid canrannol yn nifer y parseli a ddosbarthwyd gan Trussell rhwng 2018/19 a 2023/24, gwelwn gynnydd o 61% yng Nghymru.

Canlyniadau parhaol ar gyfer iechyd ac addysgu – rhagolygon hirdymor cyfyngus ar gyfer Cymru

Mae tlodi yng Nghymru yn effeithio'n ddwys a pharhaol ar ganlyniadau iechyd ac addysgu. Mae oedolion oed gweithio mewn tlodi, yn enwedig y rhai rhwng 35 a 49 oed, yn sylweddol fwy tebygol i brofi salwch o'i gymharu â phobl tebyg mwy cyfoethog. Mae'r gwahaniaeth yn parhau ymhlith yr henoed gyda'r rhai 65 oed hefyd yn wynebu risgiau uwch i'w hiechyd. Mae'r bylchau rhwng disgwyliadau einioes rhwng yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a'r lleiaf difreintiedig yn drawiadol, gyda menywod mewn ardaloedd lleiaf difreintiedig yn byw 6.3 o flynyddoedd yn hirach a dynion 7.5 o flynyddoedd yn hirach. Yn frawychus, mae disgwyliad einioes yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig wedi gostwng ers 2011–13. Mae'r bwlch disgwyliad einioes iach hefyd yn peri pryder, gyda dynion yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn byw 13.4 llai o flynyddoedd iach a menywod 16.9 o flynyddoedd iach. Mae cynnydd sylweddol mewn materion iechyd ymhlith oedolion ifanc rhwng 16 a 24 oed o'i gymharu ag oedolion ifanc heb fod mewn tlodi, a hynny'n amlygu'r anghyfartaleddau iechyd mynych sy'n bodoli drwy gydol bywyd. Mae'r ffactorau hyn yn tanlinellu'r angen dybryd am fesurau effeithiol i fynd i'r afael ag effaith hirsefydlog a chanlyniadau tlodi ar iechyd pobl Cymru.

Mae'r data a ddefnyddiwyd i nodi plant o deuluoedd isel eu hincwm yn amlygu bylchau cyflawniad nodedig. Mae myfyrwyr Blwyddyn 6 sy'n derbyn pryd bwyd ysgol am ddim (FSM) dros 2 flynedd tu ôl i'w cymheiriaid o ran rhifedd a darllen. Er gwaetha'r newidiadau yn y system addysg, mae'r bwlch rhwng plant dan anfantais a phlant heb fod dan anfantais yn dal i fodoli. Mae'r gwahaniaethau parhaus hyn yn tanlinellu effaith barhaol tlodi ar ganlyniadau addysgol. Mae plant o deuluoedd isel eu hincwm yng Nghymru yn wynebu anfanteision addysgol yn fynych a gall hynny gyfyngu ar eu darpar gyfleoedd ac yn peri i gylchoedd tlodi barhau.

Nodyn methodolegol

Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio cyfartaleddau treigl 3 blynedd i ddigolledu am samplau isel eu maint o ddata cyffredinol oni nodir yn wahanol. Pan ddefnyddir cyfartaleddu 5 i 7 mlynedd, nodir hyn yn glir mewn ôl nodyn neu ffynhonnell.

Mae mwyafrif y data swyddogol ar dlodi (o'r gyfres sy'n trafod Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog (HBAI) a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad hwn yn gorffen yn 2022/23. Mae effaith Covid-19 yn dal ar y modd y casglwyd y data ond mae'r dulliau yn raddol ddychwelyd i'r hyn oedden nhw cyn y pandemig (am fanylion, gweler Atodiad 2 o Dlodi'r DU). Rhyddhawyd data diweddaraf HBAI ar gyfer 2023/24 yn agos i gyfnod cwblhau'r adroddiad hwn a chaiff ei ddefnyddio yn yr adran gyffredinol ar dlodi yn unig. Hefyd, ni chyflwynir unrhyw ddiwygiadau i ddata cynharach gan na ryddhawyd y set data llawn eto.

Tueddiadau mewn tlodi

Mae'r adran hon yn ystyried newidiadau mewn tlodi yng Nghymru dros y 5 mlynedd diwethaf. Mae'n disgrifio'r dulliau y mae tlodi wedi newid ymhlith gwahanol grwpiau ac yn gosod allan y ffactorau sydd wedi gyrru newidiadau mewn cyfraddau tlodi dros amser. Mae'n dangos y modd mae cyfraddau tlodi yn amrywio'n eang fesul demograffeg a nodweddion eraill. Y canlynol ydy'r meysydd sydd dan sylw:

Cyfraddau tlodi cyffredinol – plant, oedolion oed gweithio a phensiynwyr	11
Dyfnder tlodi	13
Bylchau tlodi	14
Tlodi cyson	16
Diymgeledd	16
Cynnwys, oed a rhywedd teuluoedd	18
Ethnigrwydd a thlodi	24
Daeryddiaeth a thlodi	28
Anabledd a thlodi	34
Gofalwyr a thlodi	38
Gwaith a thlodi	41
Nawdd cymdeithasol a thlodi	45
Tai a thlodi	50

Tueddiadau mewn tlodi

Cyfraddau cyffredinol ar gyfer plant, oedolion oed gweithio a phensiynwyr

Mae dros 2 unigolyn o bob 10 yng Nghymru (22%) mewn tlodi – 700,000 o bobl.¹ O'r rhain, mae 400,000 yn oedolion oed gweithio, mae 200,000 yn blant ac mae 100,000 yn bensiynwyr. Drwy gydol yr adroddiad hwn, pan ddefnyddiwn y term tlodi, rydyn ni'n defnyddio'r gyfradd tlodi berthynol, ar ôl costau rhedeg tŷ, oni nodir yn wahanol. Am ragor o wybodaeth ar ddiffiniadau tlodi, gweler Atodiad 1.


Mae'r data diweddaraf yn dangos bod:

- 3 plentyn o bob 10 yng Nghymru yn byw mewn tlodi (31%)
- 2 oedolyn oed gweithio o bob 10 yng Nghymru yn byw mewn tlodi (21%)
- 3 phensiynwr o bob 20 yng Nghymru yn byw mewn tlodi (16%).

Yn debyg i ffigyrau cyffredinol y DU, ni fu unrhyw gynnydd arwyddocaol yn y gwaith o ostwng tlodi yng Nghymru yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf, gyda chyfradd tlodi cyffredinol yn 22% yn ystod 2003–06 a 22% yn ystod 2020–23. Bu cydgyfeirio â chyfraddau tlodi Lloegr mewn data diweddar, sy'n parhau i fod y 2 genedl yn y DU gyda'r cyfraddau tlodi uchaf.

Ffigwr 1: Cymry a Lloegr sydd â'r cyfraddau uchaf cyffredinol ac ni fu fawr o newid yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf


Graddfeydd tlodi



Ffynhonnell: Dadansoddiad JRF o Gartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog (HBAI), 2023/24, DWP

Ffigwr 2: Yn gyson, plant sydd â'r cyfraddau tlodi uchaf yng Nghymru ac yna'n dilyn, oedolion oed gweithio sydd â phlant tra mai ymhlith pensiynwyr ynghyd ag oedolion oed gwaith di-blant y ceir y cyfraddau isaf.

Graddfeydd tlodi



Ffynhonnell: Dadansoddiad JRF o Gartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog (HBAI), 2023/24, DWP

Dros y 30 mlynedd diwethaf, mae'r cyfraddau tlodi uchaf wedi bod ymhlith plant a hynny'n gyson. Rhwng 1994-97, roedd dros draean (36%) o blant yn byw mewn tlodi. Gostyngodd y gyfradd hon i 29% yn 2003-06 ond cododd i fod tua traean rhwng 2005-08 a 2011-14. Ers hynny, mae tlodi plant wedi hofran o gwmpas 30%. Yn ystod y cyfnod diweddaraf, 2021-24, parhaodd o fod yr uchaf o fewn pob grŵp gyda 31% o blant yn dal i fyw mewn tlodi.

Yr ail grŵp gyda'r cyfraddau tlodi uchaf oedd oedolion oed gwaith gyda phlant, sydd wedi gorfod wynebu lefelau tlodi uchel drwy gydol y cyfnod a ddadansoddwyd. Yn ystod 1994-97, roedd bron i draean (29%) o'r grŵp hwn yn byw mewn tlodi. Cwmpodd y gyfradd i 24% rhwng 2004 a 2007 cyn codi i 29% yn ystod 2009-12, yna, gostwng yn gyson, gan gyrraedd 22% yn ystod 2019-22, cyn cychwyn cynyddu eto i gyrraedd 25% yn 2021-24. Er yr amrywiadau hyn, mae tlodi ymhlith oedolion sydd â phlant wedi parhau yn gymharol uchel o'i gymharu â grwpiau demograffig eraill. Cafwyd gostyngiad sylweddol yng nghyfraddau tlodi ymhlith pensiynwyr rhwng 1994 a 1997 a rhwng 2009 a 2012. Gostyngodd cyfraddau tlodi yng nghanol y 1990au o 26% i 14% yn ystod 2009-12, yn bennaf oherwydd incwm pensiynau a chynnydd mewn budd-daliadau. Fodd bynnag, cynyddodd y gyfradd unwaith eto i 20% yn ystod 2014-17 cyn gostwng unwaith yn rhagor. Ers 2003-06, o blith yr holl grwpiau, pensiynwyr oedd â'r cyfraddau tlodi isaf a'r ffigwr diweddaraf ydy 16%.

Dyfnder tlodi

Ar gyfer y cyfnod 2020–23, o'r 670,000 o bobl mewn tlodi, roedd bron i hanner miliwn o bobl (450,000) ar draws Cymru yn byw mewn 'tlodi dwys' (hynny ydy, gydag incwm teuluol cyfnerthedig ar ôl costau tai oedd yn llai na 50% o ganolrif y DU). O fewn hyn, roedd bron i hanner ohonyn nhw (310,000) yn byw mewn 'tlodi dwys' (incwm yn llai na 40% o ganolrif y DU).

Mae tlodi yng Nghymru wedi dwysáu dros amser. Yn ystod 1994–97, roedd 37% o bobl oedd yn wynebu tlodi heb fod yn dlodi dwys. Gostyngodd y gyfran hon i 31% yn ystod 2005–08 ond mae wedi cynyddu ers hynny, yn cyrraedd 33% yn ystod 2020–23.


Ar yr un pryd, mae'r gyfran o bobl sy'n profi'r amddifadedd mwyaf eithafol wedi codi'n gyson. Yn ystod 1994–97, roedd 3 o bob 10 unigolyn (32%) mewn tlodi dwys iawn. Cynyddodd hyn i 4 ymhob 10 (41%) erbyn 2005–08 a chyrraedd ei lefel uchaf yn 2020–23, pan roedd bron i hanner y bobl mewn tlodi dwys iawn (47%).

Mewn gwrthgyferbyniad mae canran y bobl sy'n byw mewn tlodi dwys ond heb fod mewn tlodi dwys iawn, wedi gostwng. Yn 1994–97, roedd 3 o bob 10 unigolyn mewn tlodi (31%) yn y grŵp hwn. Dirywiodd hyn i 28% yn 2005–08 a chyrraedd ei fan isaf yn 2020–23, pan oedd 1 o bob 5 unigolyn mewn tlodi (20%) mewn tlodi dwys ond ddim mewn tlodi dwys iawn.

Ffigwr 3: Ers 1994–97, mae'r ganran o bobl mewn tlodi sydd mewn tlodi dwys iawn wedi cynyddu ac erbyn hyn dyma'r grŵp mwyaf o bobl mewn tlodi. Ar gyfer y cyfnod rhwng 2020 a 2023, mae bron i hanner y bobl mewn tlodi yn wynebu tlodi dwys iawn.

- Mewn tlodi ond heb fod yn dlodi dwys
- Mewn tlodi dwys, ond heb fod yn dlodi dwys iawn
- Mewn tlodi dwys iawn

Canran y bobl sydd mewn tlodi



Ffynhonnell: Dadansoddiad JRF o Gartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog (HBAI), 2023/24, DWP

Mae'n achos pryder mawr bod tlodi yn dwysáu fel hyn ac yn dangos pa mor bwysig ydy hi bod pobl yn y tlodi dwysaf yn elwa o ddarpar benderfyniadau gwleidyddol a newidiadau economaidd yn hytrach na bod yn anghymesur a negyddol eu heffaith.

Bylchau tlodi


I gael syniad o ba mor ddwys ydy tlodi yng Nghymru, gellir amcangyfrif ystadegyn am y bwlch tlodi. Mae'r ystadegyn hwn yn dangos maint y bwlch rhwng incwm canolrif teuluoedd mewn tlodi a'r ffin tlodi berthnasol. Mae felly'n dangos ar gyfartaledd faint o arian fyddai angen i ddod â theuluoedd i ffin tlodi.

Yn ystod 2020–23, roedd y bwlch tlodi yn 30%, sy'n golygu bod incwm canolrif teulu mewn tlodi 30% yn is na'r ffin tlodi. I bâr gyda 2 o blant oed ysgol gynradd, roedd hyn gyfwerth â diffyg ariannol o £7,200 y flwyddyn. Hwn ydy'r bwlch tlodi mwyaf a gofnodwyd ers i'r gyfres ddata gychwyn, i fyny o 24% yn ystod 1994–97, pan oedd y diffyg ariannol gyfwerth â chwyddiant yn £3, 800. Lledodd y bwlch tlodi dwys yn sylweddol hefyd – sef y gagendor hynny sy'n adlewyrchu incwm sydd llawer yn is na'r ffin tlodi—dros yr un cyfnod, yn cynyddu o 21% yn 1994–97 i fod yn 34% yn 2020–23. Mae hyn yn cyfateb i fwlch blynyddol o £6,900, i fyny o £2,800 yng nghanol y 1990au. O ran tlodi dwys iawn, cynyddodd y bwlch o 27% i 35%, cyfwerth â chynnydd o £2,900 i £5,500 y flwyddyn.

Mae'r bwlch cynyddol hwn rhwng incwm teuluoedd a'r ffin tlodi yn amlygu difrifoldeb y sefyllfa dlodi yng Nghymru. Yn ystod 2020–23, byddai angen £13,500 ychwanegol y flwyddyn ar bâr gyda 2 o blant oed ysgol gynradd yn byw mewn tlodi dwys iawn i gyrraedd trothwy tlodi – i fyny o £8,000 yn 1994–97, cynnydd o ddau draean, ac roedd teuluoedd mewn tlodi dwys iawn yn wynebu diffyg ariannol o £10,900. Er byddai symud o dlodi dwys iawn i dlodi yn lleddfu ychydig ar ychydig o galedi, mae'r ffigyrau hyn yn tanlinellu pa mor bell mae nifer o deuluoedd wedi syrthio'n is na'r ffin tlodi – a faint rhagor o gymorth sydd ei angen er mwyn iddyn nhw ddianc o dlodi'n gyfan gwbl.

Ffigwr 4: Cynyddodd y bwlch tlodi, y bwlch tlodi dwys a'r bwlch tlodi dwys iawn yn sylweddol ers 1994–97, a'r bwlch tlodi dwys iawn fu'r mwyaf yn gyson ar draws y cyfnod

Maint y bwlch (cyfartaledd 3 blynedd)



Ffynhonnell: Dadansoddiad JRF o Gartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog, 2022/23, DWP

Tlodi cyson

Mae'r Adran Waith a Phensiynau (DWP) (2024) yn cyhoeddi amcangyfrifon o gyfran y bobl sy'n byw mewn tlodi cyson bob blwyddyn (yr incwm sydd ganddyn nhw wedi'i fesur ar ôl talu costau tai, sy'n llai na 60% o ganolrif y DU yn ystod o leiaf 3 blynedd o 4). Mae'r data diweddaraf yn dangos bod 12% o bobl ar draws Cymru rhwng 2018–2019 a 2021–2022, yn byw mewn tlodi cyson. Roedd y gyfran hon yn uwch ar gyfer plant gyda bron i 2 blentyn o bob 10 (18%) yng Nghymru yn byw mewn tlodi cyson. O ran pensiynwyr ac oedolion oed gweithio, roedd y gyfran hon yn is, ar 12% ac 11%, yn y drefn honno. Mae'r gyfradd uchel o blant mewn tlodi cyson yn achos pryder mawr. Mae hyn yn golygu bod 1 plentyn o bob 6 yng Nghymru wedi treulio 3 blynedd o'r 4 blynedd diwethaf mewn tlodi, ac rydyn ni'n gwybod po hiraef mae unigolyn yn ei dreulio mewn tlodi, gwaetha i gyd ydy'r effeithiau.

Tabl 1: Cyfraddau tlodi cyson ar gyfer gwahanol grwpiau, Cymru, 2018–2019 i 2021–2022

Grŵp	Cyfraddau tlodi cyson (%)
Pobl	12
Plant	18
Oedolion oedran gweithio	11
Pensiynwyr	12

Ffynhonnell: Dynameg Incwm: 2010 i 2022, DWP


Diymgeledd

Amddifadedd ydy ffurf dyfnaf a mwyaf niweidiol tlodi lle na all teulu fforddio i ddiwallu'r hanfodion mwyaf sylfaenol: cadw'n gynnes yn sych, yn lân a bwyta. Yn ôl ein hadroddiad diweddaraf ar Amddifadedd yn y DU, yn 2022, roedd 0.90% o deuluoedd yng Nghymru wedi profi amddifadedd – hynny ydy, doedden nhw ddim yn gallu fforddio'r hanfodion sylfaenol yn wythnosol. Mae'r ffigwr hwn yn debyg i gyfartaledd y DU (0.92%) a Lloegr (0.93%), ond yn parhau'n uwch na'r Alban (0.81%).

O'i gymharu â rhanbarthau Lloegr, mae cyfraddau amddifadedd Cymru yn is nag ardaloedd difreintiedig uchel fel Llundain Fwyaf (1.31%) a Gogledd Ddwyrain Lloegr (1.12%), ond uwch nag ardaloedd mwy cefnog fel De Ddwyrain Lloegr (0.70%) a De Orllewin Lloegr (0.65%).

Gwelwyd cynnydd cyflymach mewn amddifadedd yng Nghymru nag yn rhan fwyaf o wledydd eraill y DU. Yn 2017, roedd cyfradd Cymru (0.43%) yn is na chyfradd yr Alban (0.55%) a'r cyfartaledd cenedlaethol (0.52%). Fodd bynnag, erbyn 2022, roedd cyfradd Cymru bron yn gyfartal â chyfartaledd y DU (0.92%) ac ar y blaen i gyfartaledd yr Alban (0.90% v 0.81%). Mae'r duedd hon yn cydreddeg â phatrymau ehangach amddifadedd ar draws y DU, yn enwedig mewn ardaloedd megis Gorllewin Canolbarth Lloegr a Llundain.

Ffigwr 5: Amcangyfrif o gyfraddau amddifadedd o ddangosyddion eilaidd fesul rhanbarth neu wlad (% o deuluoedd, yn wythnosol), 2022



Ffynhonnell: [Fitzpatrick et al., 2023](#)

Cynnwys, oed a rhywedd teuluoedd

Mae Tabl 2 yn dangos y nifer o oedolion mewn tlodi a’r gyfradd dlodi fesul rhywedd a grŵp oed ar gyfer oedolion oed gweithio ac oedolion oed pensiynwyr. Roedd tua 2 o bob dyn a menyw oed gweithio yn byw mewn tlodi (21%). Mae menywod sy’n bensiynwyr yn wynebu cyfraddau tlodi uwch na dynion cyfatebol, gyda 18% o bensiynwyr o fenywod yn byw mewn tlodi o’i gymharu â 15% o ddynion o bensiynwyr. Y grwpiau oed ar gyfer oedolion oed gweithio â’r cyfraddau uchaf o dlodi oedd oedolion oed gweithio 60 oed a throsodd 60 (26%) a 16–29 (24%).

Tabl 2: Nifer o oedolion mewn tlodi a chyfraddau tlodi ar gyfer gwahanol grwpiau, Cymru, 2020–23

Grŵp	Nifer mewn tlodi	Cyfradd tlodi (%)
Rhywedd oedolion oed gweithio		
Dynion oed gweithio mewn tlodi	190,000	21
Menywod oed gweithio mewn tlodi	190,000	21
Rhywedd oedolion oed pensiwn		
Dynion oed pensiwn mewn tlodi	40,000	15
Menywod oed pensiwn mewn tlodi	60,000	18
Oedran oedolion oed gweithio		
16 i 29	100,000	24
30 i 39	80,000	21
40 i 49	60,000	15
50 i 59	80,000	19
60+	60,000	26
Oedran oedolion oed pensiwn		
65 i 74	50,000	14
75+	60,000	19

Ffynhonnell: Dadansoddiad JRF o Gartrefi Islaw’r Incwm Cyfartalog, 2022/23, DWP

Rydyn ni eisoes wedi dangos mai cyfraddau tlodi plant sy’n dueddol o fod yn uwch ond mae hyn yn amrywio gyda maint teulu. Er enghraifft, yn 2020–23, roedd cyfradd tlodi plant mewn teuluoedd gyda 3 phlentyn neu fwy ddwywaith yn uwch na chyfradd tlodi plant mewn teuluoedd un neu 2 blentyn (43% o’i gymharu â 23% a 18%).

Ymhlith teuluoedd rhiant sengl, mae 3 o bob 10 plentyn (30%) yn byw mewn tlodi. Mae canran debyg o blant mewn teuluoedd dau riant (28%) yn byw mewn tlodi. Mae’n bwysig nodi bod y tebygrwydd hwn yn berthnasol i’r cyfnod diweddaraf yn unig, gyda bwlch sylweddol rhwng cyfraddau tlodi plant mewn teuluoedd un rhiant o’i gymharu â phlant mewn teuluoedd dau riant yn ystod y blynyddoedd blaenorol. Dydyn ni ddim yn gallu penderfynu ar hyn o bryd a ydy hyn yn gydgyfeirio go wir neu’n ddata anarferol (cwirc).

Mae cyfraddau tlodi hefyd yn amrywio oherwydd oed y plant yn y teulu. Roedd 4 o bob 10 plentyn mewn teuluoedd lle roedd y plentyn ieuengaf dan 5 oed (45%) yn byw mewn tlodi o’i gymharu â 2 o bob 10 o blant yn byw mewn teuluoedd lle roedd y plentyn ieuengaf yn 5 i 10 oed (19%). Y gyfradd isaf ydy ar gyfer teuluoedd lle mae’r plentyn ieuengaf rhwng 11 ac 19 oed, lle mae 16% yn byw mewn tlodi.² Ymhlith plant mewn tlodi, mae 6 o bob 10 yn byw mewn teulu lle mae’r plentyn ieuengaf o dan 5 oed.

Tabl 3: Nifer y plant mewn tlodi a chyfraddau tlodi plant ar gyfer gwahanol grwpiau, Cymru, 2020–23

Grŵp	Nifer mewn tlodi	Cyfradd tlodi (%)
Nifer o blant yn y teulu		
Plant mewn tlodi mewn teuluoedd un plentyn	20,000	18
Plant mewn tlodi mewn teuluoedd 2 blentyn	70,000	23
Plant mewn tlodi mewn teuluoedd mawr (3+ o blant)	100,000	43
Nifer o oedolion yn y teulu		
Plant mewn teuluoedd gyda dau riant	140,000	28
Plant mewn teuluoedd un rhiant	40,000	30
Oed y plentyn ieuengaf yn y teulu		
0 i 4	120,000	45
5 i 10	50,000	19
11 i 19	20,000	16
Oed y plentyn		
0 i 4	60,000	40
5 i 10	60,000	28
11 i 19	60,000	23


Ffynhonnell: Dadansoddiad JRF o Gartrefi Islaw’r Incwm Cyfartalog (HBAI), 2023/24, DWP

Sylwer: Ystyrir bod unigolion rhwng 16 ac 19 oed yn blant a’u bod: yn ddi-briod nac mewn partneriaeth sifil nac yn byw gyda phartner; yn byw gyda rhieni /oedolion cyfrifol ac mewn addysg amser llawn nad yw’n addysg uwch neu mewn hyfforddiant di-dâl gan y llywodraeth.

Yn hanesyddol, bu plant iau mewn perygl uwch o fod mewn tlodi ac mae'r data'n awgrymu bod y patrwm hwn yn parhau ar ôl y pandemig a chyfnod diddymu ei fesurau polisi cysylltiol, mesurau fel ychwanegu taliad o £20 yr wythnos at y Credyd Cynhwysol (UC), a lwyddodd dros dro i ostwng y gyfradd dlodi. Ond, mae angen rhagor o ddata i fod yn sicr o hyn

Ffigwr 6: Roedd cyfraddau tlodi plant mewn teuluoedd lle mae'r plentyn ieuengaf o dan 5 oed yn gyson uwch gan gyrraedd eu man uchaf ers o leiaf 1994–97...


Graddfa tlodi plant yn ôl oed y plentyn ieuengaf



Ffynhonnell: Dadansoddiad JRF o Gartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog (HBAI), 2023/24, DWP

Ffigwr 7: ...a phlant oed 0–4 mewn perygl uwch o dlodi na grwpiau eraill, ac yn 2020–23 yn cyrraedd lefel tlodi na welwyd ei thebyg ers 1994–97

Graddfa tlodi plant yn ôl oed y plentyn



Ffynhonnell: Dadansoddiad JRF o Incwm sy'n Is na'r Cyfartaledd (HBAI), 2023/24, DWP

Mae plant o deuluoedd un rhiant yn hen gyfarwydd â wynebu cyfraddau tlodi uwch, fel yn wir mae plant mewn teuluoedd mawr a phlant mewn teuluoedd â phlant ifanc. Am fwyafrif y cyfnod hwn, cafwyd bwlch mawr rhwng cyfraddau tlodi teuluoedd un a 2 blentyn ar un llaw a theuluoedd gyda 3 phlentyn neu fwy ar y llaw arall. Y rheswm dros hyn yn rhannol ydy y gall cyfrifoldebau gofal plant neu gostau, gyfyngu ar allu rhai rhieni i ymgymryd â gwaith â thâl yn llawn amser neu ddewis swyddi sy'n talu'n well ond yn llai hyblyg neu'n bell i ffwrdd, ond hefyd yn cynnwys y cyfyngiad 2 blentyn, sy'n cyfyngu ar y cymhwyster i dderbyn budd-daliadau seiliedig ar incwm i'r 2 blentyn cyntaf mewn teulu a'r cap ar fudd-daliadau sy'n cyfyngu ar faint o incwm gall teulu dderbyn mewn budd-daliadau.

Fodd bynnag, mae cyfraddau tlodi plant mewn teuluoedd rhiant sengl wedi bod yn gostwng ers 2018–21. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd, 5 o bob 10 plentyn (51%) mewn teuluoedd un rhiant mewn tlodi ond syrthiodd hyn i 3 o bob 10 (30%) yn 2020–23. Fel y soniwyd eisoes, mae'n rhy gynnar i ddweud ai gwir effaith neu anwadalwch data ydy hyn. Ond yr hyn mae'n ei olygu ydy bod y bwlch a nodwyd rhwng cyfraddau tlodi ar gyfer plant mewn teuluoedd un rhiant a phlant mewn teuluoedd dau riant wedi lleihau. Mae hyn yn bennaf oherwydd y gwelliant mewn cyfraddau tlodi ar gyfer plant mewn teuluoedd un rhiant a nodwyd yn flaenorol, ond mae'r sefyllfa'n gwaethygu ar gyfer plant mewn teuluoedd dau riant. Ers 2018–21, cynyddodd cyfraddau tlodi ar gyfer plant mewn teuluoedd dau riant o 25% i 28% yn y data diweddaraf.


Mae cyfraddau tlodi plant mewn teuluoedd â phlant ifanc wedi bod yn cynyddu ers 2013–16, ac ar eu huchaf 2020–23 ar 45%. Yn yr un modd mae cyfraddau plant mewn teuluoedd mawr wedi cynyddu, yn codi o 40% yn 2019–22 i fod yn 43% yn ystod y cyfnod diweddaraf.

Un ffactor pwysig i deuluoedd gyda phlant 0–4 oed ydy cost gofal plant yng Nghymru. Mae data Coram yn dangos cynnydd o 9.7% yng nghost gofal rhan amser mewn meithrinfa ar gyfer plant o dan 2 oed rhwng 2024 a 2025, a 7.2% ar gyfer plant 2 oed ([Coram, 2025](#)). Cafwyd cynnydd o 6.9% a 6.5% yn eu tro yn y costau yn yr Alban, tra bu gostyngiad yn Lloegr o 55.5% a 56.3% yn eu tro, (y rheswm dros y gostyngiad mawr hwn ydy cyflwyno hawliadau newydd yn Lloegr a roddodd 15 awr yr wythnos o ofal plant wedi'u hariannu gan y llywodraeth i rieni cymwys oed gweithio am 38 wythnos y flwyddyn).


Hefyd, mae costau gofal plant 3 a 4 oed wedi cynyddu ynghynt yng Nghymru fesul blwyddyn. Ar gyfartaledd, cost lle llawn amser mewn meithrinfa i blentyn 3 a 4 oed ydy £119.23 yr wythnos, cynnydd o 5.6% ar 2024. Yn Lloegr, bu'r cynnydd mewn pris yn arafach, cynnydd o 4.7% ers y llynedd i bris wythnosol ar gyfartaledd o £126.94. Yn yr Alban, mae lle cyfwerth mewn meithrinfa yn £105.88 yr wythnos, cynnydd o 3.7% ar gostau y llynedd.

Ffigwr 8: Yn hanesyddol, mae cyfraddau tlodi wedi bod ar eu huchaf ymhlith plant mewn teuluoedd un rhiant. Fodd bynnag, mae'r cyfraddau hyn wedi gostwng gan gyrraedd eu man isaf yn ystod y cyfnod 2020–23. Mewn gwrthgyferbyniad, cynyddodd cyfraddau tlodi ar gyfer plant ifanc (o dan 5 oed) yn ystod yr un cyfnod. Mae'n rhy gynnar i ddweud ai gwir effaith ydy hyn neu anwadalwch data.


Graddfa tlodi



Graddfa tlodi



Graddfa tlodi




Ffynhonnell: Dadansoddiad JRF o Gartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog (HBAI) 2022/23, DWP

O ran tlodi pensiynwyr, drwy gydol yr holl gyfnod, roedd cyfraddau tlodi menywod oed pensiwn yn gyson uwch na chyfraddau dynion oed pensiwn. Fe wnaeth y bwlch leihau yn 2007-10 a 2008-11; fodd bynnag, ers hynny, mae'r bwlch wedi lledu, gan roi menywod oed pensiwn mewn mwy o berygl o dldi. Yn y cyfnod rhwng 2020 a 2023, roedd 18% o fenywod oed pensiwn yn wynebu tlodi o'i gymharu â 15% o ddynion oed pensiwn.

Ffigwr 9: Mae tlodi pensiynwyr yn uwch nawr nag yn 2010–13, gyda bwlch cyffredinol gyson rhwng cyfraddau tlodi pensiynwyr o fenywod a dynion o tua 2 i 4 pwynt canran yn ystod y blynyddoedd diweddar.

Graddfeydd tlodi



Ffynhonnell: Dadansoddiad JRF o Gartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog, 2022/23, DWP

Ethnigrwydd a thlodi

Mae poblogaeth lleiafrifoedd ethnig yn tyfu yng Nghymru. Ym mis Mawrth 2021, nododd 93.8% o boblogaeth Cymru eu bod yn 'wyn', i lawr o 95.6% yn 2011. 'Asiaidd, Asiaidd Cymreig neu Asiaidd Prydeinig' oedd y categori ethnig mwyaf, sef 2.9%. Mae hyn yn gynnydd o 2.3% ym mlwyddyn 2011. Ymhlith categorïau ethnig eraill roedd 'grwpiau Cymysg neu ethnig lluosol' (1.6%), 'Du, Du Cymreig, DU Prydeinig, Caribiaidd neu Affricanaidd' (0.9%), a 'Grŵp ethnig arall' (0.9%). Ardaloedd dinesig megis Caerdydd, Casnewydd ac Abertawe oedd yn cynnwys y ganran uchaf o grwpiau ethnig heb fod yn wyn ([Llywodraeth Cymru, 2021](#)).


Yng Nghymru, mae gwahaniaethau sylweddol yn bodoli rhwng cyfraddau tlodi grwpiau gwyn a grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Yr hyn sy'n cyfrannu at y canlyniadau anghyfartal hyn ydy hiliaeth uniongyrchol, drwy weithredoedd unigolion a sefydliadau, ynghyd â safonau a pholisïau cymdeithasol a strwythurau cynllun cymdeithasol ehangach megis y marchnadoedd llafur a thai. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynllun ArWAP (Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cymru) ym mis Mehefin 2022 a'i ddiweddarau yn 2024 ([Llywodraeth Cymru, 2024a](#)), gyda'r bwriad i fynd i'r afael â'r anghyfartaleddau ethnig hirsefydlog hyn drwy annog y sector cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector i frwydro yn erbyn anghyfiawnderau systemig a chydweithio i sicrhau newid ystyrlon. Gydag amrywiaeth yn cynyddu yng Nghymru a'r tebygrwydd bod lleiafrifoedd ethnig yn wynebu gwahaniaethu a allai arwain at dlodi, mae'n bwysig amlygu a deall gwahaniaethau er mwyn mynd i'r afael yn effeithiol a datrys tlodi yng Nghymru. Ni allwn ystyried yn benodol y grwpiau hynny sydd heb hawl i gyllid cyhoeddus yng Nghymru, ond roedd hwn yn grŵp mawr yn ein hadroddiad diweddaraf ar amddifadedd (gweler [Fitzpatrick et al., 2023](#)).

Yn y data mwyaf diweddar, wedi cyfartaleddu dros y 5 mlynedd diwethaf er mwyn sicrhau samplau o'r maint digonol, roedd cyfraddau tlodi yn uwch ymhlith grwpiau lleiafrifoedd ethnig nag oedden nhw ar gyfer pobl wyn yng Nghymru. Yn benodol, roedd tua hanner y bobl (47%) mewn teuluoedd lleiafrifoedd ethnig yn byw mewn tlodi, a hynny'n eu gwneud ddwywaith mwy tebygol na phobl mewn teuluoedd gwyn (22%) i fod mewn tlodi. O'r rhai hynny mewn tlodi, roedd nifer syfrdanol o bobl (58%) mewn teuluoedd lleiafrifoedd ethnig mewn tlodi dwys iawn, o'i cymharu â dim ond 43% o deuluoedd gwyn oedd mewn tlodi dwys iawn.

Yr hyn y mae patrwm yr ystadegau hyn yn ei ddangos ydy bod aelodau o deuluoedd lleiafrifoedd ethnig yn llawer mwy tebygol o fod mewn tlodi nag aelodau o deuluoedd gwyn. Mae gwaith diweddar JRF ([Matejic et al., 2024](#)) sy'n ystyried tlodi dwys iawn cyson yn y DU, yn dangos, hyd yn oed ar ôl llywio ar gyfer ystod eang o nodweddion teulu, gwaith a thai, bod risg uwch i aelodau o wahanol grwpiau lleiafrifoedd ethnig o fyw mewn tlodi dwys iawn cyson. Mae hyn yn tanlinellu anghyfartaledd strwythurol rolau, gwahaniaethu uniongyrchol a hiliaeth.

Ffigwr 10: Mae teuluoedd lleiafrifoedd ethnig lawer mwy tebygol o fod mewn tlodi, gyda thros hanner y bobl mewn teuluoedd lleiafrifoedd ethnig mewn tlodi yn wynebu tlodi dwys iawn

● Tlodi dwys iawn ● Tlodi, heb fod yn dlodi dwys iawn



Ffynhonnell: Dadansoddiad JRF o Gartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog, 2022/23, DWP

Sylwer: Defnyddir cyfartaleddau 5 mlynedd oherwydd bod maint samplau mewn setiau data blynyddol yn fychan. Yn unol â dull y DWP o fynd ati, mae amcangyfrifon blwyddyn sengl ar gyfer 2020/21 yn cael eu heithrio oherwydd materion ansawdd data, felly seilir y cyfartaleddau 5 mlynedd hyn ar ddata 2018/19, 2019/20, 2021/22 a 2022/23 yn unig.


Cyfunwyd pob grŵp ethnig heb fod yn wyn yn un categori oherwydd bod maint y samplau yn fychan. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys Grwpiau lleiafrifoedd ethnig Cymysg a Lluosog, Du/Du Prydeinig, yn cynnwys Du Affricanaidd/ Affricanaidd Prydeinig, Du Caribïaidd/ Caribïaidd Prydeinig, Asiaidd/Asiaidd Prydeinig, gan gynnwys Bangladeshi, Pacistani, Tsieineaidd, Indiaidd ac o unrhyw gefndir Asiaidd arall; a phob grŵp ethnig arall heb fod yn wyn.

Mae Ffigwr 11 yn dangos cyfres o gyfraddau tlodi fesul grŵp ethnig, sy'n defnyddio cyfartaledd 7 mlynedd er mwyn goresgyn y broblem o samplau bychan bob blwyddyn eu maint. Serch hynny, gall sampl llai o ran maint olygu bod amrywiadau o ran pwy a arolygir yn cael effaith mwy eglur ar werthoedd blynyddol o'i gymharu â'r boblogaeth wen eang. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd i benderfynu a ydy'r newidiadau hyn dros amser yn wir adlewyrchu profiadau pobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig ac a ydyn nhw'n gysylltiedig â symudiadau yn y ffactorau sy'n gyrru tlodi yn eu hachos nhw, ai newidiadau strwythurol megis polisïau i newydd sy'n gyfrifol neu ydyn nhw'n cael eu gyrru gan anwadalwch yn y data. Serch hyn, mae data dros yr 20 mlynedd diwethaf yn dangos bod cyfraddau tlodi poblogaeth wen Cymru yn cyson is o'i gymharu â phoblogaeth y lleiafrifoedd ethnig.

Yn fras, mae'n debyg y cysylltir y gostyngiad yn nhlodi grwpiau lleiafrifoedd ethnig o 1994 i ganol y 2000'au â thwf economaidd gwell polisïau ar addysg a pholisïau cefnogol gwrth-hiliaeth Llywodraeth y DU (gweler, er enghraifft, [Mirza and Warwick, 2024](#) a [CSJ, 2020](#) am ddadansoddiad lefel y DU). Fodd bynnag, arweiniodd argyfwng ariannol 2008 a'r mesurau llym dilynol at gynydd yn lefel tlodi pobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig a dychwelyd i gyfraddau tebyg i rai 1994, cyn gostwng yn y cyfnod ar ôl hynny.

Ffigwr 11: Mae cyfraddau tlodi pobl mewn teuluoedd lleiafrifoedd ethnig yn gyson uwch na phobl mewn teuluoedd ethnig gwyn

Graddfeydd tlodi



Ffynhonnell: Dadansoddiad JRF o Gartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog, 2022/23, DWP

Sylwer: Defnyddir cyfartaleddau 7 mlynedd oherwydd maint bychan y samplau mewn setiau data blynyddol. Yn unol â dull DWP o fynd ati, caiff amcangyfrifon blwyddyn sengl eu heithrio ar gyfer 2020/21 oherwydd materion ansawdd y data.

Daearyddiaeth a thlodi


Ar draws awdurdodau lleol Cymru, penderfynyddion pwysig cyfraddau tlodi ydy gwahaniaethau mewn cyfleoedd cyflogaeth, lefelau cyflogau a chostau tai. Mae'n bwysig deall y modd y mae gyrwyr tlodi yn rhyngweithio i greu gwahanol gyfraddau tlodi ar lefel leol.

Ar gyfartaledd, 29% oedd cyfradd tlodi plant yng Nghymru o 2020 i 2023 (ac eithrio 2020/21 oherwydd anwadaluwch y data) a hynny ychydig yn is na chyfartaledd y DU. Ymhlith gwledydd y DU a rhanbarthau Lloegr, mae Cymru yn y canol o ran cyfraddau tlodi plant. Mae'r rhanbarthau gyda'r cyfraddau isaf yn cynnwys Dwyrain Lloegr (23%), Gogledd Iwerddon (23%), Yr Alban (24%), De Ddwyrain Lloegr (25%) a De Orllewin Lloegr (27%). Ar y pegwn uchaf, gyda'r cyfraddau uchaf o dlodi plant mae Gorllewin Canolbarth Lloegr (39%), Gogledd Orllewin Lloegr (37%), Llundain (32%), Gogledd Ddwyrain Lloegr (30%), Dwyrain Canolbarth Lloegr 30%), a Swydd Efrog a'r Humber (29%).

Ffigwr 12: Amcangyfrifon cyfradd tlodi plant fesul rhanbarth a gwlad

Graddfeydd tlodi plant

- 22% – 24%
- 24% – 29%
- 29% – 31%
- 31% – 39%



Ffynhonnell: Dadansoddiad JRF o Gartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog, 2022/23, DWP

Mae data ar lefel fwy lleol Prifysgol Loughborough ar gyfer Cynghrair Terfynu Tlodi Plant yn ein galluogi i ystyried y modd y mae cyfraddau tlodi plant yn amrywio ar draws gwahanol Awdurdodau Lleol (ALI) yng Nghymru. Mae cyfraddau tlodi plant mewn nifer o etholaethau yng Nghymru lawer uwch na'r cyfartaledd o'i gymharu â'r ffigyrau drwyddi draw ar gyfer Cymru. O fewn Cymru, ceir y cyfraddau uchaf o dlodi plant ym Mlaenau Gwent (34%), Merthyr Tudful, Ceredigion a Chasnewydd (32%), ac Ynys Môn a Sir Benfro (31%). Ceir y cyfraddau isaf ym Sir Fynwy (22%), Bro Morgannwg (24%) a Sir Fflint (26%).


Ffigwr 13: Amcangyfrifon o gyfraddau tlodi plant fesul Awdurdod Lleol

Awdurdodau Lleol

1. Ynys Môn
2. Gwynedd
3. Conwy
4. Sir Ddinbych
5. Sir y Fflint
6. Wrecsam
7. Ceredigion
8. Sir Benfro
9. Sir Gaerfyrddin
10. Abertawe
11. Castell-nedd Port Talbot
12. Pen-y-bont ar Ogwr
13. Bro Morgannwg
14. Caerdydd
15. Rhondda Cynon Taf
16. Caerffili
17. Blaenau Gwent
18. Tor-faen
19. Sir Fynwy
20. Casnewydd
21. Powys
22. Merthyr Tudful

Graddfeydd tlodi plant


- 22% – 28%
- 28% – 30%
- 30% – 31%
- 31% – 34%




Ffynhonnell: Amcangyfrifon o gyfraddau tlodi plant ar ôl costau tai gan Rwydwaith Dileu Tlodi Plant, 2022/23

Ffigwr 14: Mae gan nifer o awdurdodau lleol â chyfraddau isel o dlodi plant gyfraddau uchel o gyflogaeth a llai o gymdogaethau difreintiedig

Graddfeydd tlodi plant



Graddfeydd tlodi plant



Ffynhonnell: Amcangyfrifon cyfradd tlodi plant, ar ôl costau tai, gan Rwydwaith Dileu Tlodi Plant, 2022/23; Data cyflogaeth gan Lywodraeth Cymru, 2022; data ar amddifadedd gan Mynegai Amddifadedd Lluosog ar gyfer Cymru (WIMD), 2019 ([Llywodraeth Cymru, 2024b](#)).

Sylwer: Mae'r graff yn dangos canran o'r Ardaloedd Gynnyrch Ehangach Haen (LSAOs) mwyaf difreintiedig yn yr 20% isaf o safleoedd yr WIMD (ranc 1-382) ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru; ceir rhagor o wybodaeth yn 'Llywodraeth Cymru ([2024b](#)). Dewiswyd blwyddyn y data ar gyflogaeth i gyd-fynd â'r data ar dlodi.

Mae gwahaniaethau mewn cyfraddau tlodi plant yn debygol o gael eu cysylltu â gwahaniaethau mewn cyfraddau cyflogaeth a Mynegai Amddifadedd Lluosog ar gyfer Cymru (WIMD). O edrych ar gyfradd cyflogaeth y boblogaeth gweithio yng Nghymru, rydyn ni'n sylwi ar gysylltiad negyddol rhwng tlodi plant a'r gyfradd cyflogaeth, yn awgrymu bod cyfraddau tlodi plant yn gostwng wrth i gyflogaeth gynyddu. Er enghraifft, A'auLL gyda chyfraddau cyflogaeth uwch (rhwng 77% a 79%) megis Sir Fflint, Bro Morgannwg a Mynwy sydd â 'r cyfraddau isaf o dlodi plant (rhwng 22% a 26%). Mae gan y ddau ALL gyda'r cyfraddau isaf o gyflogaeth (tua 70%), Casnewydd a Sir Ddinbych, y cyfraddau uchaf o dlodi plant (32% a 30%, yn y drefn honno).

Mesur cyfansawdd ydy'r WIMD sy'n diffinio'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn seiliedig ar ddangosyddion gwahanol, gan gynnwys incwm, cyflogaeth, addysg, gwasanaethau addysgol, mynediad i wasanaethau, tai, amgylchedd ffisegol a diogelwch cymunedol. Mae'r dangosyddion hyn ar y cyd yn adlewyrchu natur gymhleth amddifadedd a'i effaith ar Awdurdodau Lleol. Yma, rydyn ni'n ystyried canran o ardaloedd o fewn ALL yn y rhannau mwya difreintiedig yng Nghymru. Mae gan unrhyw ALL gyda mwy nag 20% o ardaloedd difreintiedig mwy na'u dogn o ardaloedd difreintiedig.

Dydy hi ddim yn syndod bod y data yn dangos bod cyfraddau tlodi plant yn uwch mewn ardaloedd gyda chanran uwch o gymdogaethau difreintiedig. Er enghraifft, Blaenau Gwent sydd â'r gyfradd uchaf o dlodi plant (34%) a'r chanran uchaf o gymdogaethau difreintiedig (45%) yn ei ardal a Merthyr Tudful yn dilyn gyda 32% o dlodi plant a 31% o gymdogaethau difreintiedig, ac yna Casnewydd gyda 32% o dlodi plant a 35% o gymdogaethau difreintiedig. I'r gwrthwyneb, mae'r ardaloedd gyda'r cyfraddau isaf o dlodi plant hefyd â chymdogaethau difreintiedig, megis Sir Fynwy (22% o dlodi plant a 2% o'i ardal yn gymdogaethau difreintiedig), Sir Fflint (26% o dlodi plant a 11% o gymdogaethau difreintiedig) a Bro Morgannwg (24% o dlodi plant a 13% o gymdogaethau difreintiedig).

Yn y ddau achos, mae ffigyrau Ceredigion yn eithriad. Mae gan yr ALL ganran gymharol isel o gymdogaethau difreintiedig (4%) ond cyfradd uchel o dlodi plant (32%). Mae gan Geredigion gyfradd cyflogaeth gweddol uchel sef 75%. Mae gan Ynys Môn a Sir Benfro hefyd yn ardaloedd gyda dogn is na'r cyfartaledd o ardaloedd difreintiedig a chyflogaeth cymharol uchel ond tlodi uchel. Eglurhad posibl ydy cyflogau isel. Mae'r rhain i gyd yn ardaloedd gyda chanran uchel yn gweithio ym maes twristiaeth ac amaethyddiaeth ar gyflogau isel neu waith tymhorol neu'n rhan amser. Gweler yr adran isod ar Waith a Thlodi am ragor o wybodaeth am ddylanwad marchnadoedd llafur lleol ar gyfraddau lleol.

Mae ein dadansoddiad yn cymharu cyfraddau tlodi plant yn erbyn cyfraddau cyflogaeth a WIMD yn waith rhagarweiniol ac ond yn amlygu rhai ffactorau a allai gyfrannu at gynnydd mewn cyfraddau tlodi. Mae'n bwysig pwysleisio y gallai elfennau a nodweddion unigol pob ALL megis nifer y cymudwyr, lleoliadau gwledig v. lleoliadau trefol, argaeledd gwasanaethau cymdeithasol, amodau economaidd, tai fforddiadwy a mynediad i addysg a gofal iechyd effeithio ar y canlyniadau hyn. Ni fydd y mesurau cyflogaeth ac amddifadedd a ystyrir yma yn gallu esbonio'r rhain i gyd yn llawn. Diben y trosolwg hwn ydy cynnig mewnwelediad byr i ddarparu yrwyrl tlodi plant ac i awgrymu meysydd ar gyfer ymchwiliad pellach. Mae'r cafeat hwn hefyd yn berthnasol i'w ddadansoddi yn yr adran ar Waith a Thlodi sy'n cymharu Awdurdodau Lleol ymhellach.

Anabledd a thlodi

Mae bron i 900,000 o bobl anabl (30% o'r boblogaeth) yng Nghymru – ac mae dros 4 teulu o bob 10 (42%) yn cynnwys o leiaf un unigolyn sy'n anabl. Mae 12% o blant, 26% o oedolion oed gwaith a 50% o bensiynwyr yn nodi eu bod yn anabl. Mae pobl anabl mewn mwy o berygl o fod mewn tlodi oherwydd y costau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag anabledd a salwch a rhwystrau rhag gweithio. O ganlyniad, mae pobl anabl a'u teuluoedd yn fynych yn dibynnu ar nawdd cymdeithasol fel ffynhonnell incwm, a all, ar hyn o bryd, fethu â darparu incwm digonol, fel yr amlygir yn adroddiad 'Scope – Disability Price Tag' ([Wright et al., 2024](#)).

Mae'r adran hon yn egluro'r cyfraddau tlodi ar gyfer pobl anabl ac ar gyfer unigolion o fewn teuluoedd gydag aelod anabl, a chymharu hyn â phobl heb fod yn anabl.³ Mae cyfraddau tlodi pobl anabl yn uwch na rhai pobl heb fod yn anabl, ac mae hyn hefyd yn wir am anabledd corfforol, meddyliol a mathau eraill o anabledd.

Mae'r mesur tlodi a ddefnyddiwyd yn yr adran hon yn mesur incwm ar ôl costau tai, gan eithrio budd-daliadau anabledd o incwm y teulu. Y rheswm dros hyn ydy oherwydd bod y cyfryw fudd-daliadau anabledd wedi'u llunio i dalu'r costau sy'n gysylltiedig ag anabledd. Felly, gall cynnwys y rhain gyda ffurfiau eraill o incwm gynnig asesiad isel o'r perygl o dlodi. Er enghraifft, mae rhaid i bobl anabl brynu offer arbenigol i fyw'n annibynnol, yn cynnwys pethau fel cadeiriau olwyn modur neu raglenni darllen sgrin, tra bod plant anabl efallai angen therapïau megis ffisiotherapi a therapi lleferydd a iaith. Mae rhai namau neu gyflyrau hefyd yn effeithio'n sylweddol ar gostau ynni, ac yn amhosibl i rai gyrchu cludiant cyhoeddus, hynny ydy, does gan rhai pobl anabl ddim opsiwn ond i ddefnyddio tacsis a cherbydau hurio preifat i deithio o gwmpas ([Wright et al., 2024](#)).

Cyfradd tlodi ar gyfer pobl anabl yng Nghymru ydy 32%, 10 pwynt canran yn uwch na rhai sydd heb fod yn anabl. Mae’r gwahaniaeth yn parhau i fod yn arbennig o amlwg ar gyfer oedolion oed gwaith: mae oedolion anabl oed gwaith bron ddwywaith mwy tebygol i fyw mewn tlodi o’i gymharu â’r rhai heb fod yn anabl (37% a 19%, yn y drefn honno).

Tabl 4: Mae cyfraddau tlodi yn uwch ar gyfer pobl anabl

Anabl/heb fod yn anabl		Grŵp oed	Cyfradd tlodi (%)
Anabl			
	Plentyn		37
	Oedolyn oed gwaith		37
	Pensiynwyr		25
Heb fod yn anabl			
	Plentyn		31
	Oedolyn oed gwaith		19
	Pensiynwyr		16

Ffynhonnell: Dadansoddiad JRF o Gartrefi Islaw’r Incwm Cyfartalog, 2022/23, DWP

Mae gan bron i hanner o’r holl bobl sy’n anabl ac yn byw mewn tlodi gyflwr iechyd meddwl hirdymor, cyfyngol – tua 140,000 o bobl. Cyfradd tlodi ar gyfer pobl anabl gyda chyflwr iechyd meddwl cyfyngol ydy 37%, o’i gymharu â 31% ar gyfer pobl gydag anabledd corfforol a 29% o’r rhai gydag anabledd arall.⁴

Cyfradd tlodi ymhlith dynion anabl oed gweithio ydy 39%, tua dwbl cyfradd y rhai heb fod yn anabl (19%). Ar gyfer menywod anabl oed gwaith, mae’r gyfradd tlodi yn is sef 34%, er yn dal i fod 15 pwynt canran yn uwch nag ar gyfer menywod heb fod yn anabl.

Cyfradd tlodi ar gyfer unigolion sy’n byw mewn teulu sy’n cynnwys aelod anabl ydy 32%, sef 13 pwynt canran yn uwch na’r rhai sy’n byw mewn teulu lle nad oes neb yn anabl. O’r holl unigolion mewn tlodi, mae 57% yn byw mewn teulu sy’n cynnwys rhywun sy’n anabl, o’i gymharu â 38% o unigolion heb fod mewn tlodi.

Mae tlodi yn arbennig o uchel mewn teuluoedd sy’n cynnwys plant anabl (36%).

Tabl 5: Mae cyfraddau tlodi lawer yn uwch ar gyfer teuluoedd yn cynnwys plant anabl

Anabledd o fewn teulu	Cyfradd tlodi (%)
Neb yn anabl	19
Oedolion anabl yn unig	33
Yn cynnwys plant anabl	36


Ffynhonnell: Dadansoddiad JRF o Gartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog 2022/23, DWP

Sylwer: Defnyddiwyd cyfartaleddau 5-mlynedd er mwyn sicrhau samplau digonol eu maint.

Gyrrwr allweddol cyfraddau uwch o dlodi ydy'r gyfradd cyflogaeth sy'n is ar gyfer pobl anabl ac aelodau teulu lle mae rhywun yn anabl. Dim ond 4 o 10 o oedolion anabl oed gwaith (41%) yng Nghymru oedd mewn cyflogaeth o'i gymharu ag 8 o bob 10 (80%) o oedolion oed gwaith a heb fod yn anabl. Hefyd, mae gwahanol gyfraddau cyflogaeth yn help i egluro'r gyfradd tlodi uwch ymhlith pobl gyda chyflwr iechyd meddwl hirdymor cyfyngol. Ymhlith y grŵp hwn, roedd 38% o oedolion oed gwaith mewn gwaith, o'i gymharu â 48% o'r rhai ag anabledd corfforol a 61% o'r rhai gydag anabledd arall.

Ffigwr 15: Mae cyfraddau cyflogaeth yn amrywio fesul math o anabledd ond lawer yn is o'u cymharu â phobl heb fod yn anabl

Graddfeydd cyflogaeth




Ffynhonnell: Dadansoddiad JRF o Gartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog, 2022/23, DWP

Sylwer: Os oes gan unigolyn fwy nag un math o anabledd, mae'n cael ei gyfrif ymhob categori perthnasol.

Mae cyfradd tlodi wedi amrywio ers dechrau'r ganrif, ac ar ei anterth yn 40% rhwng 2013 a 2016. Mae'r bwlch tlodi hefyd wedi amrywio. Ar ôl i'r bwlch rhwng cyfraddau tlodi pobl anabl a phobl heb fod yn anabl leihau yn ystod blynyddoedd cynnar y 21 ganrif, ehangodd yn amlwg o 2007-10 i 2014-17 ond ers hynny mae wedi cau i fod yn 10 pwynt canran yn y data diweddaraf.

Ffigwr 16: Mae cyfraddau tlodi yn gyson uwch ar gyfer pobl anabl nag ar gyfer pobl heb fod yn anabl

Graddfeydd tlodi




Ffynhonnell: Dadansoddiad JRF o Gartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog, 2022/23, DWP

Sylwer: Mae budd-daliadau anabledd yn cael eu heithrio o incwm teulu

Ceir y cyfraddau tlodi uchaf ymhlith y rhai â chyflwr iechyd meddwl o'i gymharu â mathau eraill o anabledd, er bod y cyfraddau tlodi hyn wedi gostwng dros y cyfnod amser ar gyfer pob math o anableddau.

Ffigwr 17: Mae cyfraddau tlodi pobl â chyflwr iechyd meddwl wedi bod yn gyson uwch na phobl gyda mathau eraill o anabledd

Graddfeydd tlodi



Ffynhonnell: Dadansoddiad JRF o Gartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog, 2022/23, DWP

Sylwer: Os oes gan unigolyn fwy nag un math o anabledd, mae'n cael ei gyfrif ymhob categori perthnasol. Mae budd-daliadau anabledd yn cael eu heithrio o incwm teulu.


Gofalwyr a thlodi

Mae gofalwyr anffurfiol yn fwy tebygol o fyw mewn tlodi na'r rhai heb gyfrifioldebau gofalu (31% o'i gymharu â 22%). Mae llawer o ofalwyr yn ei chael hi'n anodd i gydbwysu gwaith â gofal a chostau gofalu, gyda gofalwyr yn aml yn defnyddio eu hincwm neu eu cynilion eu hunain i dalu am wasanaethau cymorth a chyfarpar gofal ([Carers UK, 2024](#)). Mae canlyniadau iechyd gofalwyr hefyd yn waeth a chanran uchel o ofalwyr yn cael problemau iechyd meddwl a chorfforol ([Huang et al., 2021](#)). Mae'r holl ffactorau hyn yn golygu bod gofalwyr lawer mwy tebygol na'r rhai heb unrhyw gyfrifioldebau gofalu o fod yn byw mewn tlodi.

Mae cyfran yr oedolion sy'n ofalwyr anffurfiol (answyddogol) wedi parhau'n gymharol sefydlog, ar tua 9% i 12% dros yr 20 mlynedd diwethaf. Ar hyn o bryd yng Nghymru, mae 1 o bob 10 oedolyn (250,000) yn ofalwyr answyddogol gyda 7 o bob 10 o'r gofalwyr hyn yn byw mewn teuluoedd lle mae rhywun yn anabl. Menywod sy'n cyfrif am 6 o bob 10, ac mae 8 o bob 10 yn rhai oed gweithio. Mae tua 6 o bob 10, ar gyfartaledd, yn gofalu am lai na 35 awr yr wythnos, a thros 4 ymhob 10 yn treulio 35 awr yr wythnos neu fwy yn cynnig gofal answyddogol neu anffurfiol.

Mae cyfraddau tlodi yn uwch ar gyfer gofalwyr answyddogol nag ar gyfer y rhai heb fod yn ofalwyr ar draws bron holl categorïau proffil rhywedd ac oed.

Ffigwr 18: Mae cyfraddau tlodi yn uwch ar gyfer gofalwyr answyddogol nag ar gyfer y rhai heb fod yn ofalwyr ar draws bron holl categorïau proffil rhywedd ac oed



Ffynhonnell: Dadansoddiad JRF o Gartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog, 2022/23, DWP


Sylwer: Defnyddiwyd cyfartaledd 5-mlynedd ar gyfer cyfraddau tlodi ar gyfer proffil rhywedd ac oed er mwyn sicrhau sampl digonol eu maint.

Mae gofalwyr answyddogol oed gweithio yn llai tebygol o fod yn gyflogedig (61%) na rhai heb fod yn ofalwyr (71%), ond mae gwahaniaeth sylweddol mewn cyfraddau cyflogaeth yn dibynnu ar faint o amser a dreuliwyd ar ofalu. O oedolion oed gweithio sy'n gofalu am 35 awr neu fwy yr wythnos, dydy 7 o bob 10 ddim mewn gwaith (68%) – sydd dros 3 gwaith cyfradd y rhai sy'n gofalu am lai na 35 awr yr wythnos (21%).

Mae'r data mwyaf diweddar yn dangos bod y bwlch wedi tyfu, gyda chyfradd tlodi ar gyfer gofalwyr yn cynyddu tra bod y gyfradd ar gyfer y rhai heb fod yn ofalwyr wedi aros yr un fath.

Ffigwr 19: Mae'r bwlch mewn tlodi rhwng gofalwyr anffurfiol a phobl sydd heb fod yn ofalwyr anffurfiol wedi ehangu yn ystod y 2 flynedd diwethaf

Graddfa tlodi




Ffynhonnell: Dadansoddiad JRF o Gartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog, 2022/23, DWP

Gwaith a thlodi

Mae profiad pobl o'r farchnad lafur yn newid ar lefel genedlaethol, ac er bod tlodi pobl sydd mewn gwaith wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diweddar, pobl mewn gwaith (y rhai agosaf at y farchnad lafur) ydy'r rhai mwyaf diogel rhag tlodi. Yn wir, ar gyfer unigolion oed gweithio, y gyfradd tlodi ar gyfer y rhai ymhlith y rhai cyflogedig oedd 11%, ond ar y llaw arall y gyfradd ar gyfer y rhai di-waith neu'r rhai hynny sydd ddim yn cyfrannu i'r farchnad lafur (economaidd segur) oedd 42%. Cyflogai llawn amser sy'n profi'r lefelau isaf o dlodi sef 8%, ac yna cyflogai rhan amser ar 17%. Mae'r gyfradd tlodi ar ei uchaf ar gyfer oedolion oed gweithio sydd yn ddi-waith neu'n economaidd segur ar 42%.

Ffigwr 20: Mae cyfraddau tlodi ar eu huchaf ymhlith oedolion oed gweithio sy'n ddi-waith neu'n economaidd segur

Oedolion o oedran gweithio




Ffynhonnell: Dadansoddiad JRF o Gartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog, 2022/23, DWP

Ffigwr 21: Mae pobl mewn teuluoedd heb unrhyw oedolyn mewn gwaith yn fwy tebygol o brofi tlodi o'u cymharu â phobl mewn teuluoedd gydag o leiaf un oedolyn sy'n gweithio

● Rhieni ag o leiaf 1 oedolyn mewn gwaith ● Rhieni heb unrhyw oedolyn mewn gwaith (heb waith)

Graddfa tlodi



Ffynhonnell: Dadansoddiad JRF o Gartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog, 2022/23, DWP

Sylwer: Defnyddir cyfartaleddau 5 mlynedd oherwydd bod maint samplau mewn setiau data blynyddol yn fach. Yn unol â dull y DWP o fynd ati, mae amcangyfrifon blwyddyn sengl ar gyfer 2020/21 yn cael eu heithrio oherwydd materion ansawdd data.

Mae dangosyddion gweithgaredd economaidd megis mentrau gweithredol (neu fusnesau) yn cynnig mewnwelediadau gwerthfawr i gyfraddau tlodi ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru. Fel arfer, cysylltir cyflog uwch a gweithgaredd busnes â chyfraddau tlodi, gan eu bod yn arwain at ddiogelwch ariannol a thwf economaidd. Mae'r dangosyddion hyn hefyd yn adlewyrchu iechyd economaidd lleol, sy'n effeithio ar sefydlogrwydd ariannol teuluoedd. Drwy ddadansoddi'r metrigau hyn, gallwn nodi'r meysydd sydd angen cymorth a gweithredu ymyriadau wedi'u targedu er mwyn hybu gweithgaredd economaidd a mynd i'r afael â thlodi.

Mae ein dadansoddiad yn dangos perthynas negyddol rhwng cyfraddau tlodi plant a chyflogau isel ar draws gwahanol ardaloedd yng Nghymru. Mae gan Flaenau Gwent, Merthyr Tudful a Cheredigion gyfraddau uchel o dldi plant a chyflogau fesul awr ar yr 20fed ganradd yn hanner isaf awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae gan ardaloedd fel Sir Fflint, Bro Morgannwg, Bro Morgannwg a Sir Fynwy gyfraddau isel o dldi plant a chyflogau fesul awr ar yr 20fed canradd yn hanner uchaf awdurdodau lleol Cymru.

Ar lefel macro, mae 19 o'r 22 ALI yng Nghymru yn hanner gwaelod yr Awdurdodau Lleol ar draws Prydain o ran tâl fesul awr ar yr 20fed canradd, yn ôl Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion. O'r 350 ALI yn Lloegr, Cymru a'r Alban gyda data ar dâl fesul awr ar yr 20fed ganradd, y safle cyfartalog ar gyfer y 22 ALI yng Nghymru yw 248, o'i gymharu â 174 ar gyfer y 295 ALI yn Lloegr a 122 ar gyfer y 32 ALI yn yr Alban. Mae hyn yn awgrymu problem o gyflogau isel cronig yng Nghymru o'i gymharu â Lloegr a'r Alban.

O'i chymharu â Lloegr neu'r Alban, mae gan Gymru ddogn uwch o ddiwydiant mewn grwpiau diwydiannol gyda chyflog is na'r canolrif ac, yn berthnasol, lai o ddiwydiant mewn grwpiau diwydiannol gyda chyflog yn uwch na'r canolrif. Mae grwpiau diwydiannol eang fel Gweithgynhyrchu, Llety a Gwasanaethau Bwyd ac Amaethyddiaeth, Coedwigaeth a Physgota yn hanner gwaelod y cyflog canolrif a grwpiau diwydiannol sy'n ffurfio cyfran uwch o ddiwydiant yng Nghymru o'i gymharu â Lloegr neu'r Alban. Mae grwpiau diwydiannol yn yr hanner uchaf ar gyfer cyflog canolrifol fel Gwybodaeth a Chyfathrebu, a gwasanaethau Proffesiynol, Gwyddonol a Thechnegol yn ffurfio cyfran is o ddiwydiant yng Nghymru o'i gymharu â Lloegr a'r Alban ([ASHE, 2024](#), Tabl 5).

Yn yr un modd, mae ein dadansoddiad yn dangos cysylltiad negyddol clir rhwng cyfraddau tlodi plant a'r nifer o fentrau gweithredol mewn ALI.


Wrth i nifer o fentrau gweithredol gynyddu, mae cyfraddau tlodi plant yn dueddol o ostwng. Er enghraifft, ym Mlaenau Gwent a Merthyr Tudful ceir y cyfraddau uchaf o dlodi plant a'r nifer isaf o fentrau gweithredol fesul 10,000 o'r boblogaeth, tra bod Sir Fynwy yn dangos cyfradd is o dlodi plant a mwy o fusnesau gweithredol. Fodd bynnag, mae lleoedd megis Powys, sydd â chyfradd canolig o dlodi (o dan 30%) ond â nifer uchel o fentrau gweithredol – wedi'u heffeithio gan gyfradd uchel o hunan-gyflogaeth yn y rhanbarth.

Er bod y nifer isel o fentrau yn adlewyrchu ffactorau hanesyddol a chyfoes, efallai byddai cymryd golwg fanylach ar y grwpiau diwydiannol preifat pennaf ar draws yr Awdurdodau Lleol hyn yn awgrymu mai sectorau sy'n talu fwy efallai sy'n gyfrifol am y gwahaniaethau a nodwyd mewn tlodi plant. Y 3 grwp diwydiannol preifat pennaf ym Mlaenau Gwent a Merthyr Tudful ydy Adeiladu, Manwerthu a Llety a Gwasanaethau Bwyd yn y drefn honno, tra ym Mynwy maen golygu y Proffesiynol, Gwyddonol a Thechnegol, Adeiladu a Llety a Gwasanaethau Bwyd.


Mae'r dadansoddiad hwn yn help i nodi ffactorau sylfaenol posibl cysylltiedig â gwaith sy'n cyfrannu at dlodi, ond mae angen rhagor o waith ar gyfer dadansoddi'r rhesymau dros y gwahaniaethau rhwng yr ardaloedd awdurdodau lleol yn llawn.

Ffigwr 22: Mae cyfraddau tlodi plant awdurdodau lleol gydag enillion uwch eu cyfartaledd a mentrau mwy gweithredol yn dueddol o fod yn is

Graddfa tlodi plant



Graddfa tlodi plant



Ffynhonnell: Amcangyfrifon o gyfraddau tlodi plant, ar ôl costau tai, o Rwydwaith Dileu Tlodi Plant 2022/23, Data o enillion o (ASHE, 2024) a data o fentrau gweithredol o ONS, 2023.

Nawdd cymdeithasol a thlodi

Mae cyfraddau tlodi y bobl sy’n hawlio gwahanol fuddion cysylltiedig ag incwm lawer yn uwch na’r cyfraddau cyfartalog cenedlaethol tlodi. Ar un llaw, mae hyn i’w ddisgwyl o gofio meini prawf cymhwyster incwm isel ar gyfer hawlio cymorth sy’n dibynnu ar brawf modd, tra ar y llaw arall, mae’n dangos nad ydy lefel y budd-daliadau sydd ar gael yn ddigonol i alluogi derbynyddion i ddianc rhag tlodi.

Mae newidiadau yng ngofynion cymhwyster, yn enwedig yn ystod misoedd cynnar 2010, yn ei gwneud hi’n anodd ystyried cyfraddau tlodi ar gyfer derbynyddion budd-dâl dros amser. Hwn ydy’r rheswm ein bod wedi cyfyngu’r dadansoddiad i’r degawd diwethaf.

Tabl 6: Cyfradd tlodi ymhlith pobl mewn teuluoedd mewn teuluoedd sy’n derbyn budd-daliadau, 2020–23

Budd-dâl	Cyfradd tlodi ar gyfer pobl mewn teuluoedd sy’n derbyn budd-dâl (%)
Credyd Cynhwysol neu gyfwerth ¹	44
Budd-daliadau anabledd ²	15
Lwfans Gofalw ³	23
Credyd Pensiwn	26
Dim un o’r uchod	15

Ffynhonnell: Grwpiau diwydiannol eang fel Gweithgynhyrchu, 2022/23, DWP


Sylwer:

- Mae Credyd Cynhwysol (UC) yn daliad i deuluoedd sy’n derbyn Credyd Cynhwysol neu unrhyw fudd-dal etifeddol y mae’n ei ddisodli sef Lwfans Ceisio Gwaith (seiliedig ar incwm), Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, Cymorth Incwm, Credyd Treth Plant, Credyd Treth Gwaith a Budd-dal Tai.
- Mae budd-daliadau anabledd yn cynnwys unrhyw ffurf ar Lwfans Byw i’r Anabl, Pensiwn Anabledd Rhyfel/Cynllun Iawndal y Lluoedd Arfog, Lwfans Mynychu, Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol ac unrhyw ffurf o Daliadau Annibyniaeth Personol. Mae’r incwm o’r budd-daliadau hyn wedi cael ei gynnwys fel incwm ond mae’r rhain yn talu am gostau ychwanegol cysylltiedig â bod yn anabl yn hytrach na chodi safonau byw. Os na fydd y budd-daliadau hyn yn cael eu cynnwys fel incwm, mae ‘r gyfradd tlodi ar gyfer y grŵp hwn yn codi i 40%.
- Mae derbynyddion Lwfans Gofalwr (CA) yn fwy tebygol o fod yn byw gyda rhywun sy’n derbyn budd-daliadau anabledd. Os na fydd y budd-daliadau hyn yn cael eu cynnwys fel incwm, mae’r gyfradd tlodi ar gyfer y grŵp hwn yn codi i 57%.

Mae'r bwlch mewn cyfraddau tlodi rhwng pobl mewn teuluoedd sy'n derbyn budd-daliadau yn seiliedig ar incwm a'r rhai sydd ddim, wedi parhau'n gyson uchel dros y cyfnod, gyda'r rhai sy'n derbyn Credyd Cynhwysol neu fudd-daliadau etifeddol cyfwerth 3 gwaith fwy tebygol o fod mewn tlodi na'r rhai sydd ddim yn hawlio unrhyw un o'r budd-daliadau dan ystyriaeth. Mae cynnwys budd-daliadau anabledd fel incwm yn golygu mai dim ond ychydig yn fwy tebygol o fod mewn tlodi mae derbynyddion y budd-daliadau dan ystyriaeth na'r rhai sydd ddim yn derbyn y budd-daliadau hyn (y ddau yn 15% yn 2020-23), ond ceir darlun tecach os caiff incwm o'r budd-daliadau hyn eu heithrio, fel y mae'r llinell binc yn dangos, sef bod 40% o bobl sy'n derbyn budd-daliadau anabledd mewn tlodi.

Ffigwr 23: Mae cyfraddau tlodi derbynyddion budd-dal wedi bod yn uwch drwy gydol y degawd diwethaf

Graddfa tlodi



Ffynhonnell: Dadansoddiad JRF o Gartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog, 2022/23, DWP

Sylwer: *Mae budd-daliadau anabledd yn cynnwys unrhyw ffurf ar Lwfans Byw i'r Anabl, Pensiwn Anabledd Rhyfel/Cynllun Iawndal y Lluedd Arfog, Lwfans Mynychu, Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol ac unrhyw ffurf o Daliadau Annibyniaeth Personol. Mae'r budd-daliadau hyn wedi cael eu heithrio o incwm ar gyfer y llinell hon

Budd-daliadau Llywodraeth Cymru

Cyfrifoldeb adrannau Llywodraeth y DU (yn bennaf DWP) ydy mwyafrif y budd-daliadau a delir i deuluoedd. Fodd bynnag, mae nifer o fudd-daliadau gan Lywodraeth Cymru. Mae Sefydliad Bevan wedi edrych ar y modd y gall gwahanol ffynonellau cymorth gael eu cyfuno’n well i ffurfio ‘System Fudd-daliadau Cymru’ (Sefydliad Bevan, 2019). Yn dilyn y gwaith hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynnig system mwy ‘cydlynol a thosturiol’, ac wedi sefydlu grŵp llywio Symleiddio Budd-daliadau Cymru i ddatblygu’r gwaith hwn. Mae’r adran hon yn ystyried rhai o’r budd-daliadau allweddol naill ai’r rhai sy’n benodol i Gymru neu’r rhai a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

Tabl 7: Trosolwg o system fudd-daliadau Cymru

Budd-dâl	Diben	Graddfa
Cynllun Gostyngiadau’r Dreth Cyngor	Yn eithrio teuluoedd isel eu hincwm o orfod talu Treth y Cyngor neu’n darparu disgownt ar eu cyfer. Diogelwyd Cymorth Treth Cyngor gan Lywodraeth Cymru, gyda’r Llywodraeth yn diffinio’r cynllun ar gyfer Awdurdodau Lleol, yn annhebyg i Loegr lle cwtogwyd ar y cymorth.	260,000 o deuluoedd yn derbyn £1,160/y flwyddyn ar gyfartaledd
Taliad Cymorth Brys Cronfa Cymorth Dewisol	Mae taliadau Cymorth mewn Argyfwng yn help i dalu am gostau hanfodol megis, bwyd, nwy, trydan, dillad neu deithio brys	230,000 o daliadau o £80 ar gyfartaledd
Prydau ysgol am ddim	Yn darparu cinio am ddim ar gyfer plant o deuluoedd isel eu hincwm (yn gyffredinol mewn ysgolion cynradd)	Mae 90,000 o blant yn gymwys ar gyfer derbyn prydau ysgol am ddim
Grant Hanfodion Ysgol	Mae’r grant yn cynorthwyo teuluoedd isel eu hincwm, i brynu dillad ysgol, cit chwaraeon, bagiau ysgol, a deunydd ysgrifennu	90,000 o blant yn derbyn £125 (£200 os ydyn nhw’n mynd i mewn i Flwyddyn 7)
Talebau Cychwyn Iach	Mae’r talebau yn galluogi teuluoedd isel eu hincwm i brynu ffrwythau a llysiau neu fformiwla llaeth yn ystod beichiogrwydd a blynyddoedd cynnar plentyn	Ar gyfartaledd, mae tua 21,000 o bobl yn derbyn £4.25 yr wythnos yn ystod beichiogrwydd a phan fydd plentyn yn 1–4 oed, a £8.50 yr wythnos o enedigaeth plentyn nes bydd y plentyn yn 1 oed

Budd-dâl	Diben	Graddfa
Lwfans Cynhaliaeth Addysg	Taliad ariannol sy'n cynorthwyo unigolyn ifanc o deulu isel eu hincwm i barhau i fod mewn addysg ar ôl 16 oed	16,000 o bobl ifanc yn derbyn uchafswm o £1,600/y flwyddyn
Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai	Taliad ychwanegol yn ôl disgresiwn ar gyfer teuluoedd isel eu hincwm sy'n ei chael hi'n anodd i dalu costau tai	16,000 o dyfarniadau DHP gwerth £500 ar gyfartaledd
Taliad Cymorth Unigol Cronfa Cymorth Dewisol	Taliadau Cymorth i Unigolion i helpu pobl i fyw'n annibynnol yn eu cartref neu eiddo y mae'n nhw'n symud i mewn iddo	15,000 o daliadau o £990 ar gyfartaledd
Rhaglen NYTH Llywodraeth Cymru ar gyfer Cartrefi Cynnes	Grant sy'n galluogi teulu isel eu hincwm sydd mewn tlodi tanwydd arbed mwy o ynni yn eu cartref	5,000 o deuluoedd gyda model i arbed £600/y flwyddyn ar eu bil ynni
Grant cyfleusterau i bobl anabl	Yn cynorthwyo teuluoedd isel eu hincwm gyda chostau i addasu eu cartref i ddiwallu anghenion unigolyn anabl	4,000 o grantiau wedi'u cwblhau ar gyfartaledd o £8,910
Grant Dysgu Llywodraeth Cymru – Addysg Bellach	Grant i alluogi rhywun dros 19 oed neu fwy, isel ei incwm i gyrchu addysg bellach	3,000 o ymgeiswyr llwyddiannus yn derbyn £1,110 ar gyfartaledd

Ffynhonnell: Dadansoddiad JRF o ddata Llywodraeth Cymru

Sylwer: Mae'r raddfa ar gyfer 2023/24, ac eithrio Grant Cyfleusterau i'r Anabl sydd ar gyfer 2022/23.


Y rhan fwyaf o System Fudd-daliadau Cymru ydy cynllun Gostyngiadau'r Dreth Cyngor y mae 260,000 o deuluoedd yn eu derbyn yn 2023/24. Bu gostyngiad yn yr achosion dros amser, gyda dros 300,000 o deuluoedd yn derbyn hyn yn ystod 2015/16. Ymhlith y cymorth arall perthnasol i dai mae Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai (DHPs), i helpu gyda chostau tai, a Rhaglen Nyth Cartrefi Cynnes yn rhoi grantiau ar gyfer effeithlonrwydd ynni. Mae hefyd Grant Cyfleusterau i'r Anabl sy'n cynorthwyo gyda chostau addasu ar gyfer unigolyn anabl.

Mecanwaith i gynnig cymorth ydy'r Gronfa Cymorth Dewisol (DAF) sy'n gweithredu yng Nghymru i helpu pobl mewn argyfwng. Mae DAF yn cynnwys 2 fath o gymorth: Taliadau Cymorth i Unigolion (IAPs), sy'n cynnig nwyddau sylfaenol ar gyfer y cartref i alluogi pobl i fyw'n annibynnol, er enghraifft wrth adael lloches, carchar neu lety dros dro; a'r Taliadau Cymorth mewn Argyfwng (EAPs), sy'n cynnig ychydig o arian mewn argyfwng i helpu gyda chostau hanfodol.

Ffigwr 24: Dosbarthiad oedran yr unigolion sy'n derbyn dyfarniadau Taliadau Cymorth Brys (%)

● Mai 2022 hyd Fai 2023 ● Mai 2023 hyd Fai 2024

Cyfran o'r derbynwyr



Ffynhonnell: Data DAF, Llywodraeth Cymru, 2022/23 & 2023/24

Sylwer: Cyflenwir data DAF i Lywodraeth Cymru gan eu darparwr gwasanaeth 'NEC Software Solutions UK'.

Mae data Llywodraeth Cymru yn dangos, yn 2023/24, bod £19 miliwn mewn dyfarniadau EAP wedi'u talu i unigolion. Mae hyn yn ostyngiad o'i gymharu â'r £25 miliwn a dalwyd yn 2022/23. Eglurir y gostyngiad hwn yng ngwerth yr EAP a dalwyd i unigolion gan newid ym mholisi'r Gronfa Cymorth Dewisol (DAF) a weithredwyd ym mis Ebrill 2023, lle gostyngwyd y nifer uchaf o daliadau o hyd at 5 taliad i hyd at 3 taliad fesul hawlydd ([Ferraz-Luz, 2024](#)).

O ran demograffeg, roedd pobl iau yn hawlio EAP yn amlach. O fis Mai 2023 i 2024, unigolion yn y grŵp oedran 30-39 a dderbyniodd y nifer fwyaf o ddyfarniadau EAP (34%) ac yna'r rhai 16-29 oed (27%). Gyda'i gilydd, derbyniodd y 2 grŵp hyn 61% o gyfanswm y dyfarniadau EAP, gyda'r 39% sy'n weddill yn cael eu derbyn gan bobl 40 oed a hŷn. Mae cyfran y bobl 16-39 oed a dderbyniodd EAP yn y flwyddyn ariannol 2023/24 wedi cynyddu ychydig ers 2022/23, ond dim ond o gwpl o bwyntiau canran. Mae'r gwrthwyneb yn wir am y rhai 40 oed a hŷn, lle mae cyfrannau wedi gostwng o 1 neu 2 bwynt canran. O ran daearyddiaeth, mae dosbarthiad dyfarniadau DAF ar draws awdurdodau lleol a grwpiau oedran yn dangos bod y cyfartaledd ar gyfer pob awdurdod lleol yn cyd-fynd â'r cyfartaledd cenedlaethol ([Ferraz-Luz, 2024](#)).

Yr elfen olaf o system Budd-daliadau Cymru ydy budd-daliadau i blant a phobl ifanc, gan gynnwys talebau cychwyn iach i fenywod beichiog a phlant cyn-oed-ysgol, prydau ysgol am ddim a grantiau hanfodion ysgol i blant ysgol, a'r Lwfans Cynhaliath Addysg a'r Grant Dysgu Addysg Bellach i bobl 16 oed a hŷn sy'n aros mewn addysg.

Tai a tlodi

Dros y ddau ddegawd diwethaf, bu newid yn y mathau o ddaliadaeth tai y mae'r boblogaeth gyffredinol yn byw ynddyn nhw ledled Cymru. Mae Data Llywodraeth Cymru (2025) yn dangos bod y sector rhent preifat yng Nghymru wedi mwy na dyblu o ran maint rhwng 2001 a 2024, ac wedi cynyddu o 7% i 14% o gartrefi. Crebachodd y sector rhent cymdeithasol ychydig yn y 2000au, ond yna fe ddringodd yn ôl i tua 240,000 o gartrefi yr oedd ar droad y ganrif, ond gan ostwng o fod yn cartrefu 19% o'r boblogaeth i gartrefu 16% wrth i'r boblogaeth gynyddu. Mae nifer y bobl mewn tlodi ym mhob daliadaeth wedi newid yn sylweddol, gyda llawer mwy o bobl mewn tlodi bellach yn byw yn y sector rhent preifat yng Nghymru. Mae newidiadau ym mhroffil daliadaeth tai yn bwysig oherwydd pe bai costau tai wedi aros yn is oherwydd cyfuniad o ddarparu mwy o dai cymdeithasol, lefelau uwch o berchnogaeth tai, a llai o ddibyniaeth ar y sector rhent preifat, byddai cyfraddau tlodi yn debygol o fod yn is.

Mae'r newid hwn yn amlwg yn y dosbarthiad deiliadaeth ymhlith y rhai mewn tlodi. Yn 2000–03, roedd 1 o bob 4 (40%) o bobl mewn tlodi yn byw yn y sector rhent cymdeithasol, roedd 20% yn byw yn y sector rhent preifat, ac roedd 40% yn byw mewn tai sy'n eiddo i'r perchennog (gan gynnwys tai sy'n eiddo i'r perchennog yn llwyr a thai sy'n cael eu prynu gyda morgais). Yn 2020–23, roedd cyfran is o bobl mewn tlodi yn byw yn y sector rhent cymdeithasol (35%), roedd ychydig yn fwy (23%) yn byw yn y sector rhent preifat ac roedd 41%, sy'n fras yn ddigyfnewid, yn byw mewn llety sy'n eiddo i'r perchennog.

Mae cyfraddau tlodi yn amrywio'n sylweddol yn ôl deiliadaeth ac maen nhw'n arbennig o uchel ymhlith rhentwyr. Yn 2020–23, roedd mwy na 4 o bob 10 rhentwr cymdeithasol (46%) a thua traean o rentwyr preifat (31%) mewn tlodi ar ôl talu eu costau tai.

Tabl 8: Nifer y bobl sydd mewn tlodi a chyfraddau tlodi yn ôl deiliadaeth yng Nghymru, 2020–23

Daliadaeth	Nifer y bobl mewn tlodi	Cyfradd tlodi (%)
Yn llwyr berchen yr eiddo	210,000	18
Prynu â morgais	70,000	7
Rhentu cymdeithasol	240,000	46
Rhentu preifat	160,000	31


Ffynhonnell: Dadansoddiad JRF o Gartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog, 2022/23, DWP

Nodyn: Defnyddir cyfartaleddau 3 blynedd oherwydd bod y meintiau sampl yn fach mewn setiau data blynyddol. Yn unol â dull DWP, mae amcangyfrifon blwyddyn sengl ar gyfer 2020/21 wedi'u heithrio oherwydd problemau ansawdd data, felly mae'r cyfartaleddau 3 blynedd hyn yn seiliedig ar ddata 2021/22 a 2022/23 yn unig. Mae niferoedd y bobl mewn tlodi wedi'u talgrynnu i'r 10,000 agosaf.

Mae tlodi ymhlith rhentwyr cymdeithasol yn anghymesur oherwydd yr incwm isel, tra bod rhentwyr preifat yn fwy tebygol o gael eu tynnu i dlodi gan eu costau tai; mae 35% o rentwyr preifat mewn tlodi ar ôl ystyried eu costau tai. Ymhlith perchnogion tai, roedd 18% o bobl a oedd yn byw mewn cartref a oedd yn eiddo llwyr iddyn nhw mewn tlodi. Roedd y cyfraddau tlodi ar eu hisaf ymhlith y rhai oedd yn talu morgais – sef 7%. Roedd bron pob un (93%) o'r bobl hyn mewn tlodi cyn ystyried costau tai (sy'n eithrio'r rhan ad-dalu o'r morgais).

Ffigwr 25: Mae'r gyfradd tlodi uchaf yn achos rhentwyr cymdeithasol a phreifat, ac mae llawer ohonyn nhw mewn tlodi dim ond ar ôl talu eu costau tai.

● Mewn tlodi cyn ac ar ôl y costau talu am dŷ ● Mewn tlodi ar ôl y costau talu am dŷ yn unig



Ffynhonnell: Dadansoddiad JRF o Gartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog, 2022/23, DWP

Sylwer: Defnyddir cyfartaleddau 3 blynedd oherwydd y meintiau sampl bach oedd mewn setiau data blyneddol. Yn unol â dull yr Adran Gwaith a Phensiynau, mae amcangyfrifon blwyddyn sengl ar gyfer 2020/21 wedi'u heithrio oherwydd problemau ansawdd data, felly mae'r cyfartaleddau 3 blynedd hyn yn seiliedig ar ddata 2021/22 a 2022/23 yn unig.


Wrth edrych ar dueddiadau dros amser, mae cyfraddau tlodi ar gyfer rhentwyr cymdeithasol wedi aros yn gymharol sefydlog ers 2004, gyda'r pwynt uchaf yn 52% yn 2005–08 a'r pwynt isaf yn 44% yn 2012–15. O 2004–07 hyd at 2018–21, mae'r cyfraddau hyn ar gyfer rhentwyr preifat wedi amrywio rhwng 41% a 51%. Fodd bynnag, bu gostyngiad nodedig yng nghyfraddau tlodi ar gyfer rhentwyr preifat ar ôl 2018–21, gan ostwng i 34% yn 2019–22 ac ymhellach i 31% yn 2020–23. Er y gallai'r ystadegau hyn awgrymu gwelliant dros amser o bosibl, mae'r data yn rhy anwadal i ddod i gasgliadau pendant ar hyn o bryd. Mae'n bwysig nodi'r cafeat hwn wrth ddehongli'r canlyniadau.

Ymhlith perchnogion llwyr eu heiddo, roedd cyfraddau tlodi yn hofran o gwmpas 17% dros y cyfnod 1994–97 i 2006–09. Gostyngodd y cyfraddau tlodi hyn i’w pwynt isaf oedd yn 12% yn 2008–11. Ers hynny, maen nhw wedi codi eto, gan adennill eu pwynt uchaf o 18% yn 2020–23. Gallai’r cynnydd yn niferoedd y rhai sy’n byw mewn tlodi mewn llety sy’n eiddo llwyr iddyn nhw fod yn adlewyrchu poblogaeth sy’n heneiddio ac yn fwy-fwy newid i fod yn berchnogion llwyr ar eu tai. Mae hyn yn rhywbeth y mae angen cadw llygad arno, hyd yn oed os nad yw’n fater o gostau tai.


Mae’r gyfradd tlodi ddiweddaraf ar gyfer pobl sy’n byw mewn cartref a brynwyd â morgais ar ei lefel isaf yn y cyfnod sy’n cael ei gwmpasu gan y data, sef 7%. O 1997–2000 hyd at 2018–21, mae’r cyfraddau hyn wedi aros rhwng 10% a 14%, gan ostwng yn y ddau gyfnod diwethaf. Dydy’r cyfraddau tlodi is na’r cyfartaledd hyn ddim yn syndod o ystyried yr incwm uwch a sefydlog sy’n angenrheidiol i sicrhau morgais. Fodd bynnag, gallai’r cynnydd mawr mewn cyfraddau llog ar forgeisi wrthdroi’r duedd hon ac achosi i’r cyfraddau tlodi ymhlith y grŵp hwn fod yn cynyddu eto.

Ffigwr 26: Mae nifer y bobl sy'n byw mewn tlodi yn y sector rhentu preifat wedi cynyddu 50% o'i gymharu â'r cyfnod 1994–97


Yn berchen yr eiddo'n llwyr




Yn prynu drwy forgais



Rhentwyr tai cymdeithasol



Rhentu tai preifat



Ffynhonnell: Dadansoddiad JRF o Gartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog, 2022/23, DWP

Y profiad o fod mewn tlodi

Mae'r adrannau blaenorol wedi egluro sut mae cyfraddau tlodi yn amrywio ar draws gwahanol grwpiau ac wedi trafod y ffactorau sydd wedi effeithio ar y cyfraddau hynny dros amser.

Mae'r adran hon yn archwilio'r ystadegau sy'n disgrifio'r profiad o fyw mewn tlodi. Mae argyfwng costau byw wedi tynnu sylw at niwed chwyddiant uchel, yn enwedig i'r rhai ar incwm isel. Yn gysylltiedig, gall cynilion helpu i gwrdd â chostau annisgwyl neu wrthsefyll sioc o ran incwm, tra gall dyledion, sy'n aml yn ddangosydd o straen ariannol, ostwng safonau byw, hyd yn oed os ydy'r incwm yn cynyddu. Gall straen byw ar incwm isel gael effaith negyddol ar iechyd. Yn olaf, mae cyrhaeddiad addysgol plant, sef y rhagfynegydd cryfaf o dlodi yn ystod oedolaeth, yn cael ei effeithio'n negyddol gan y tlodi y mae llawer o blant yn byw ynddo. Yn y rhan hon o'r adroddiad, rydym yn edrych ar y canlynol:

Costau byw	56
Ansicrwydd bwyd	61
Cynilion a dyledion	65
Iechyd a thlodi	68
Addysg a thlodi	70

Y profiad o fod mewn tlodi

Costau byw

Mae costau byw yn cyfeirio at y swm y mae aelwyd yn ei wario ar nwyddau a gwasanaethau i gynnal ei bywyd bob dydd. Gall aelwydydd sy'n gallu fforddio talu eu costau byw gymryd rhan fwy llawn yn y gymdeithas. Fodd bynnag, pan fydd pris nwyddau, yn enwedig hanfodion, yn cynyddu'n gyflymach nag incwm, mae'n gwasgu cyllidebau aelwydydd ac yn rhoi pwysau ychwanegol ar y rhai sydd ar incwm is.

Mae'n hanfodol gallu deall y newidiadau yn y costau byw er mwyn mynd i'r afael â thlodi yng Nghymru. Mae'n amlygu'r pwysau ariannol y mae aelwydydd yn eu hwynebu ac yn tanlinellu'r angen am ymyriadau wedi'u targedu i sicrhau y gall pawb fforddio diwallu eu hanghenion sylfaenol a chymryd rhan lawn yn y gymdeithas.

Mae Sefydliad Bevan wedi bod yn olrhain effaith yr argyfwng costau byw ar boblogaeth Cymru ers mis Rhagfyr 2020 trwy'r gyfres 'Ciplun o Dlodi', sy'n cynnwys arolygon ar-lein sy'n gynrychioliadol yn genedlaethol o oedolion Cymru. Bydd yr adran hon yn canolbwyntio'n bennaf ar y bennod ddiweddaraf o'r gyfres o hydref 2024, a fu'n holi ymatebwyr sut roedden nhw'n ymdopi â chostau byw (Davies ac Evans, 2024). I gael cipolwg ar gostau ynni, rydyn ni hefyd yn defnyddio data gan Ofgem, y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS), a'r Cyngor ar Bopeth.


Rhwng Mai 2021 a Medi 2024, wrth i'r adeg gwaethaf o'r argyfwng chwyddiant daro incwm teuluoedd, dyblodd cyfran yr oedolion yng Nghymru a nododd anallu i fforddio'r pethau sylfaenol weithiau, yn aml neu bob amser o 8% i 15% (Davies ac Evans, 2024).

Mae'r data'n dangos mai bwyd yw'r hanfod sy'n cael ei hepgor amlaf, gydag ymron chwarter (23%) o oedolion Cymru yn lleihau maint eu prydau bwyd neu'n hepgor prydau bwyd yn gyfan gwbl, a 14% yn gwneud yr un peth i'w plant. Mae eitemau hanfodol eraill y mae oedolion yn mynd hebddyn nhw'n cynnwys gwresogi (22%), dillad hanfodol (18%), atgyweiriadau ar gyfer nwyddau trydanol (17%) a chael cawod fynd i'r bath (15%). Yn ogystal, ni allai 13% fforddio teithiau hanfodol fel mynychu apwyntiadau meddygol neu deithio i'r gwaith, aeth 12% heb ddodrefn hanfodol, roedd 8% yn brin o bethau ymolchi hanfodol ac ymwelodd 5% â banc bwyd.

Mae'r data diweddaraf yn dangos gwelliant bach o'i gymharu â'r data a gasglwyd 14 mis ynghynt. Hynny yw, mae cyfran y bobl sy'n lleihau neu'n hepgor prydau bwyd i'w plant wedi gostwng o 19% yn haf 2023 i 14% yn hydref 2024. Yn ogystal, mae cyfran y bobl sy'n methu fforddio dillad hanfodol wedi gostwng 5 pwynt canran. Fodd bynnag, mae cyfran gyffredinol y bobl sydd heb hanfodion eraill yn parhau'n fras yn ddigyfnawid o'i gymharu â haf 2023, gyda dim ond ychydig o wahaniaethau pwynt canran ac, felly, mae'n awgrymu bod costau byw yn parhau i effeithio ar fywydau pobl Cymru.

Ffigwr 27: Bwyd a gwres ydy'r hanfodion mwyaf cyffredin y mae oedolion yng Nghymru yn eu hepgor

● Hydref 2024 ● Haf 2023



Ffynhonnell: Ciplun o dlodi yn haf 2023 a hydref 2024, [Sefydliad Bevan, 2023](#)

Nodyn: Casglwyd yr holl ffigurau gan YouGov Plc. Cyfanswm maint y sampl ar gyfer haf 2023 oedd 1,055 o oedolion, gyda data wedi'i gasglu rhwng Gorffennaf 21 a 26, 2023. Cyfanswm maint y sampl ar gyfer hydref 2024 oedd 1,207 o ymatebwyr, gyda data wedi'i gasglu rhwng Medi 2 ac 8, 2024. Mae'r data wedi'i bwysoli i gynrychioli holl oedolion Cymru (16 oed+). Mae meintiau sampl manwl ar gyfer data hydref 2024 ar gael yn Atodiad Davies ac Evans ([2024](#)).

Costau ynni ac effeithlonrwydd

Mae'r sioc prisiau ynni ddechrau 2022, a sbardunodd lawer o'r argyfwng chwyddiant, yn parhau i fod yn fater dybryd i deuluoedd, gan roi straen parhaus ar gyllid aelwydydd. Yng Nghymru, cynyddodd y cap pris nwy cyfartalog 221% rhwng Ebrill 2021 ac Ebrill 2023, gan gyfateb i £1,120 ychwanegol y flwyddyn i aelwydydd. Dilynodd costau trydan duedd digon tebyg, gyda chynnydd o 156% dros yr un cyfnod – sy'n cyfateb i £1,074 ychwanegol yn flynyddol. Er i brisiau ostwng yn 2023, mae costau ynni yn parhau i fod ymhell uwchlaw eu lefelau cyn yr argyfwng ac, ers 2024, mae prisiau nwy wedi cynyddu eto, gyda'r cap pris nwy cyfartalog yn codi 14% (£116 y flwyddyn) o'i gymharu â 2023. Cododd y cap pris cyfartalog ar gyfer trydan 8% (£77 y flwyddyn).

Mae capiau prisiau ynni yn amrywio ar draws rhanbarthau'r DU, ac mae Cymru ymhlith yr ardaloedd sy'n wynebu'r costau ynni uchaf. Yn 2025, De Cymru sydd â'r ail gap pris nwy uchaf yn y DU sef £945 y flwyddyn, o'i gymharu â'r isaf yn Nwyrain Canolbarth Lloegr sef £914, ac yn uwch na chyfartaledd Prydain gyfan o £930. Gogledd Cymru sydd yn y pumed safle, gyda chap o £928.

Gwelir patrwm tebyg yn y prisiau trydan. Gogledd Cymru a Merswy sydd â'r cap pris trydan uchaf o unrhyw ranbarth yn y DU sef £1,104 y flwyddyn, £100 yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o £1,004. De Cymru sydd yn y pumed safle, gyda chap o £1,014 y flwyddyn, y tu ôl i Ogledd yr Alban, De-orllewin Lloegr a Gogledd-orllewin Lloegr.


Mae cartref aneffeithlon o ran ynni yn gwaethygu effaith costau ynni uchel. Er bod cartrefi yng Nghymru ar y cyfan yr un mor effeithlon (67 allan o 100) â'r rhai yn Lloegr (68) o ran sgoriau Tystysgrif Perfformiad Ynni (EPC), mae amrywiad daearyddol sylweddol yn sgôr effeithlonrwydd cyfartalog cartrefi yng Nghymru. Ar lefel yr Awdurdodau Lleol, mae sgoriau effeithlonrwydd ynni cyfartalog yng Nghymru yn amrywio o 59 yng Ngwynedd i 70 ym Mro Morganwg. Mae'r ystod hon yn is nag yn Lloegr, lle mae'r effeithlonrwydd canolrifol ar lefel ALI yn 62–78, er bod ychydig o Awdurdodau Lleol yn sgorio'n uwch na 72 ([ONS, 2024](#)).

Mae'r anghydraddoldebau rhanbarthol hyn hyd yn oed yn fwy wrth ystyried ardaloedd llai yn ddaearyddol, yn enwedig rhwng ardaloedd trefol a gwledig. Mae gan ardaloedd fel Pen-dre, Litchard, a Choety ym Mhen-y-bont ar Ogwr, yn ogystal â Langstone a Llan-wern yng Nghasnewydd, sgoriau cymharol uchel o 83. Mewn cyferbyniad, mae ardaloedd fel Abersoch ac Aberdaron yng Ngwynedd yn dangos sgoriau llawer is, mor isel â 45. Mae'r amrywiadau lleol hyn yn cyfrannu at feichiau anghyfartal mewn costau ynni ac yn dangos yr anhawster mwy y mae teuluoedd incwm isel mewn rhai rhannau o Gymru yn ei wynebu wrth gadw eu cartrefi'n dwym.

Gall y cyfuniad o brisiau ynni uchel ac effeithlonrwydd ynni isel ddyfnhau profiadau o galedi i aelwydydd yng Nghymru. Yn 2019, methodd 138 o bobl a oedd yn ceisio cyngor gan Cyngor ar Bopeth Cymru â fforddio i roi arian ar eu mesurydd rhagdaledig. Erbyn 2023, roedd y nifer hwn wedi codi'n sydyn i 10,885. Yn ystod misoedd cyntaf 2025, mae 2,226 wedi rhoi gwybod am y broblem hon. Os bydd y duedd hon yn parhau, gallai cyfanswm y flwyddyn gyfateb i'r uchafbwyntiau a welwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf neu hyd yn oed fod yn uwch na'r rhai a welwyd yn ystod y blynyddoedd diweddar.

Ffigwr 28: Nifer cleientiaid y Cyngor ar Bopeth sy'n methu â rhoi arian ar eu mesurydd rhagdaledig, gan gynnwys y rhai sy'n dod i geisio am dalebau tanwydd

Nifer y Cleientiaid




Ffynhonnell: Cyngor ar Bopeth Cymru (2025), Dangosfwrdd Costau Byw

Sylwer: Mae'r data hwn ar gyfer Cymru ac yn dod o swyddfeydd lleol y Cyngor ar Bopeth. Mae hyn yn cynnwys pobl sydd ddim yn gallu fforddio ychwanegu arian ar eu mesurydd rhagdaledig, gan gynnwys pobl sy'n dod i geisio am dalebau tanwydd. Dechreuwyd cofnodi'r data am y talebau tanwydd ers mis Mawrth 2022. Mae ffigwr 2025 yn cynrychioli data sydd o Gwestiwn 1 (Q1) y flwyddyn 2025 yn unig.

Mae data y Cyngor ar Bopeth hefyd yn amlygu'r cynnydd dramatig yn nifer y bobl sy'n ceisio cymorth gyda dyledion ynni – cynyddodd yr achosion hyn 144% rhwng 2019 a 2024. Gan fod prisiau ynni yn parhau i fod yn sylweddol uwch nawr nag y bu cyn 2022, mae nifer y bobl sy'n cael eu cefnogi gan y Cyngor ar Bopeth ddechrau 2025 yn unol â'r blynyddoedd diwethaf.

Ffigwr 29: Nifer cronnus cleientiaid y Cyngor ar Bopeth a gafodd gymorth gyda dyled ynni bob mis

Nifer cronnus o gleientiaid



Ffynhonnell: Cyngor ar Bopeth Cymru (2025), Dangosfwrdd Costau Byw

Sylwer: Mae'r data hwn ar gyfer Cymru. Mae'r data o swyddfeydd lleol y Cyngor ar Bopeth. Mae hyn yn cynnwys pobl sydd ddim yn gallu ychwanegu arian ar eu mesurydd rhagdaledig, gan gynnwys pobl sy'n dod i geisio am daleb tanwydd. Dechreuodd cofnodi ar gyfer 'talebau tanwydd' ym mis Mawrth 2022.

Mae argyfwng costau byw hefyd yn effeithio'n fwy difrifol ar rai grwpiau, er enghraifft, rhieni sengl sydd â lefelau anghymesur o uchel o ddyled. Yn ôl y Cyngor ar Bopeth, maen nhw wedi profi cynnydd sydyn mewn dyled ynni ers 2019, o ddyled ynni gyfartalog o £774, yn codi i tua £1,400 yn 2024 – cynnydd o 80%.

Costau byw uchel yng nghefn gwlad Cymru

Yng Nghymru, mae costau byw cynyddol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, yn cael eu gwaethgu gan brisiau tai uwch o'i gymharu ag incwm, mynediad cyfyngedig at drafnidiaeth fforddiadwy a phrisiau nwyddau hanfodol yn codi, yn enwedig oherwydd effeithlonrwydd ynni isel stoc tai hŷn a chostau uchel ynni oddi ar y grid nwy – costau nad ydyn nhw'n cael eu rheoleiddio gan Ofgem ac sydd wedi cynyddu hyd yn oed yn fwy na'r nwy a'r trydan. Mae'r 'tlodi cudd' yng nghefn gwlad Cymru, wedi'i waethgu gan stereoteipiau diwylliannol a rhwydweithiau cymorth annigonol, yn golygu bod llawer o aelwydydd incwm isel yn wynebu 'gwasgfa driphlyg' o gostau uchel, incwm isel a chymorth cyfyngedig (Woods, 2024). Mae'r sefyllfa hon yn cael ei straenio ymhellach wrth i eiddo ar rent gael eu troi'n dai gwyliau, gan leihau argaeledd tai fforddiadwy. O ganlyniad, mae rhai costau byw ar gyfartaledd yn uwch mewn ardaloedd gwledig, ac mae rhwystrau ychwanegol i bobl gael mynediad at gymorth. Mae mynd i'r afael â'r materion hyn yn gofyn am ymateb polisi cynhwysfawr sy'n cynnwys ymyriadau cymunedol a newidiadau strwythurol i gefnogi aelwydydd gwledig yn effeithiol.

Ansicrwydd bwyd

Roedd tua 1 o bob 5 o bobl oedd mewn tlodi (20%) yn ansicr o ran bwyd yn y cyfnod 2019–23, sy'n golygu naill ai nad oedden nhw'n gallu fforddio digon o fwyd, eu bod mewn perygl o hyn neu na allen nhw fforddio digon o fwyd maethlon ar gyfer diet iach ac amrywiol (gellir dod o hyd i fanylion llawn sut mae diogelwch bwyd yn cael ei fesur yn yr Arolwg Adnoddau Teuluol (FRS) yn Atodiad 3). Mae hyn yn cynrychioli tua 130,000 o unigolion.⁵ Mewn cymhariaeth, dim ond 6% o unigolion nad oedden nhw mewn tlodi oedd yn ansicr o ran bwyd.

Mae profiad o ansicrwydd bwyd yn gyffredin ymhlith pobl ar incwm isel, ond mae'n ymddangos bod ei gyffredinolrwydd yn cynyddu wrth i bobl waethgu. Canfu ymchwil gan Brifysgol Heriot-Watt ar gyfer JRF fod mwyafrif (61%) o bobl ledled y DU a brofodd amddifadrwydd – y math mwyaf difrifol o galedi – yn brin o fwyd yn 2022 yn y mis cyn yr arolwg (Fitzpatrick et al., 2023).


Mae nifer yr achosion o ansicrwydd bwyd yn amrywio rhwng gwahanol grwpiau o bobl mewn tlodi. Yn 2019–23, profodd bron i 1 o bob 4 o blant mewn tlodi (23%) ansicrwydd, gyda darlun tebyg ar gyfer oedolion o oedran gweithio (22%). Yn y cyfamser, dim ond 4% o bensiynwyr mewn tlodi oedd yn ansicr o ran bwyd.

Wrth gymharu mathau o deuluoedd, pobl mewn tlodi mewn teuluoedd rhiant sengl oedd fwyaf tebygol o brofi ansicrwydd bwyd. Roedd dros 4 o bob 10 o bobl mewn teuluoedd rhiant sengl mewn tlodi (44%) yn ansicr o ran bwyd. Roedd gan oedolion sengl heb blant risg uwch hefyd (27%) o'i gymharu â theuluoedd cyfatebol cyplau oedran gweithio (21%).

Mae plant a phobl mewn teuluoedd rhiant sengl yn wynebu risg uwch o fod mewn tlodi na grwpiau eraill. Mae'r ffaith bod y grwpiau hyn yn fwy tebygol o fod yn ansicr o ran bwyd, hyd yn oed wrth edrych ar bobl mewn tlodi yn unig, yn dangos eu bod yn profi gradd ychwanegol o galedi sydd ddim yn cael ei gynnwys ym mhenawdau yr ystadegau tlodi.

Ffigwr 30: Ymhlith pobl sydd mewn tlodi, mae ansicrwydd bwyd yn fwyaf cyffredin ymhlith plant a phobl mewn teuluoedd rhiant sengl

Bwyd yn ansicr



Ffynhonnell: Dadansoddiad JRF o Aelwydydd Islaw'r Incwm Cyfartalog, 2022/23, DWP

Sylwer: Mae aelwydydd a rennir wedi'u heithrio o dablau diogelwch bwyd yr aelwydydd. Defnyddir cyfartaledd 3 blynedd i gyfrifo canrannau. Y blynnyddoedd sydd wedi'u cynnwys ydy 2019/20, 2021/22 a 2022/23.

Mae pobl ar aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau prawf modd hefyd yn fwy tebygol o fod yn ansicr o ran bwyd, gyda 35% o bobl sydd mewn tlodi ac ar Gredyd Cynhwysol neu fudd-daliadau etifeddol yn wynebu ansicrwydd bwyd ar gyfer y cyfnod 2019–23. Roedd hyn tua 6 gwaith y gyfradd y rhai oedd mewn tlodi ond nid ar Gredyd Cynhwysol neu fudd-daliadau etifeddol (6%).

Mae hyn yn tynnu sylw at y modd y mae system fudd-daliadau'r DU yn methu â sicrhau safon byw sylfaenol. Nid yn unig mae cyfradd sylfaenol y budd-daliadau yn annigonol i dalu cost hanfodion, ond mae yna hefyd nifer o bolisiâu a nodweddion unrhyw gynllun a all adael derbynwyr gyda phrinder arian parod i brynu digon o fwyd. Mae'r rhain yn cynnwys gorfod aros 5 wythnos am y taliad Credyd Cynhwysol cyntaf, didyniadau o Gredyd Cynhwysol (UC) i dalu dyledion ac ôl-ddyledion, unrhyw rewi neu ostyngiadau i gyfraddau yn y dyfodol, y cap budd-daliadau a meini prawf maint y sector cymdeithasol (a elwir hefyd yn 'Dreth Ystafell Wely') ([Schmuecker a Bestwick, 2023](#)).


Mae pobl anabl a'u teuluoedd mewn tlodi hefyd yn wynebu risgiau uwch o ansicrwydd bwyd. Roedd tua 1 o bob 4 o bobl sy'n byw ar aelwyd mewn tlodi gyda rhywun anabl (26%) yn wynebu ansicrwydd bwyd isel neu isel iawn yn y cyfnod 2019–23, o'i gymharu â thua 1 o bob 10 o bobl mewn tlodi heb fod neb anabl yn yr aelwyd (12%). Mae pobl anabl yn llai tebygol o fod mewn gwaith â thâl ac yn fwy tebygol o fod yn derbyn budd-daliadau. Gallan nhw hefyd wynebu costau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag anabledd, y bwriedir i fudd-daliadau anabledd eu talu. Fodd bynnag, gall ansawdd asesiadau anabledd a'r broses ymgeisio hir ar gyfer y budd-daliadau hyn arwain at ddiffygion ([Schmuecker a Bestwick, 2023](#)). Hyd yn oed pan fydd pobl yn derbyn y budd-daliadau hyn, yn aml efallai na fydd swm eu hawliad yn talu yr holl gostau sy'n gysylltiedig a' hanabledd, ac efallai y bydd angen iddyn nhw dorri'n ôl mewn meysydd eraill i dalu am y rhain.

Mae adroddiad diweddaraf 'Dosbarthu Parseli Bwyd Brys yng Nghymru' gan Trussell yn tynnu sylw at nifer y parseli bwyd brys a ddosbarthwyd gan fanciau bwyd o fewn ei rwydwaith. Mae'r data'n cyflwyno darlun pryderus: mae'r galw am fanciau bwyd yn parhau i fod yn agos at lefelau sy'n record. Rhwng mis Ebrill a mis Medi 2024, dosbarthodd banciau bwyd yng Nghymru bron i 83,000 o barseli bwyd brys. Er bod hyn yn nodi gostyngiad o 6% o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2023, pan ddosbarthwyd 89,000 o barseli, mae'r angen cyffredinol yn parhau i fod yn frawychus o uchel.

Yn ôl Trussell, dim ond rhan o'r sefyllfa ehangach yng Nghymru y mae'r data hwn yn ei adlewyrchu, gan fod llawer o ddarparwyr cymorth bwyd eraill hefyd yn cefnogi unigolion sy'n wynebu ansicrwydd bwyd, a dyw nifer sylweddol o bobl sy'n profi tlodi a newyn ddim yn derbyn cymorth gan fanciau bwyd o gwbl. Mae hyn yn awgrymu bod gwir raddfa ansicrwydd bwyd yn debygol o fod hyd yn oed yn fwy difrifol nag y mae'r niferoedd hyn yn ei ddangos.

Ffigwr 31: Mae'r ddarpariaeth bwyd brys yn parhau'n uwch nag yn y blynyddoedd diweddar

Parseli bwyd argyfwng wedi eu dosbarthu



Ffynhonnell: Trussell, Ystadegau Canol Blwyddyn 2024, Cymru

Os ydyn ni'n cymharu'r newid yn y canrannau o achosion dosbarthu parseli bwyd rhwng 2022/23 a 2023/24 ar draws y DU, rydyn ni'n gweld cynnydd cyffredinol yn y rhan fwyaf o genhedloedd. Cofnododd Lloegr gynnydd o 5%, gwelodd Gogledd Iwerddon y cynnydd uchaf sef 11%, a phrofodd Cymru gynnydd o 1%. Yr Alban oedd yr unig wlad na welodd gynnydd, gyda gostyngiad ymylol o 0.1%. Mae'r cynnydd hirdymor mewn cymorth bwyd hyd yn oed yn fwy trawiadol o'i gymharu â 5 mlynedd yn ôl (2018/19). Ers hynny, mae Gogledd Iwerddon wedi gweld cynnydd o 143%, ac yna Lloegr (109%), Cymru (61%), a'r Alban (21%).

Cynilion a dyledion


Mae byw mewn tlodi yn effeithio ar allu pobl i gronni a chynnal cynilion cartref ac yn cynyddu eu risg o fynd i ddyled broblemus. Mae hyn yn gwaethygu ymhellach pan fydd costau byw – ac felly prisiau hanfodion fel costau tai, ynni a bwyd – yn codi. Ymhellach, gall y straen a achosir gan gynilion isel a dyledion gyfrannu at broblemau iechyd meddwl, gyda phobl sydd ar ei hôl hi gyda biliau neu sydd â lefelau isel o gynilion yn fwy tebygol na phobl sy'n fwy gwydn yn ariannol o adrodd am ddangosyddion o ofid meddwl.

Mae'r data diweddaraf yn dangos bod aelwydydd ar incwm isel iawn yn anghymesur o debygol o fod gyda lefelau isel o gynilion neu ddim cynilion o gwbl ac yn fwy tebygol o brofi beichiau trwm sy'n gysylltiedig â dyled. Pan fydd cyfraddau llog yn codi, bydd y rhai sydd â chynilion ac sy'n gallu rhoi arian o'r neilltu bob mis yn gweld eu sefydlogrwydd ariannol yn gwella, tra bydd y rhai sydd wedi gorfod troi at fynd i ddyled neu sydd wedi mynd ar ei hôl hi gyda biliau oherwydd cyfyngiadau fforddiadwyedd yn parhau i gael trafferthion.

Yn 2020–23, nid oedd gan 72% o aelwydydd yn y gwintel incwm isaf (yr 20% isaf yn ôl incwm) unrhyw gynilion o gwbl neu bod eu cynilion islaw £1,500 – gan eu gadael yn agored i sioc ariannol annisgwyl ac yn fwy tebygol o syrthio i ddyled. Mae'r gyfran hon wedi aros yn uchel yn gyson dros y 3 degawd diwethaf, gan amrywio o gwmpas 80% o 1994–97 hyd at 2016–19, cyn gostwng ychydig yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Ffigwr 32: Mae cyfran y teuluoedd mewn tlodi sy'n nodi bod ganddyn nhw gynilion o lai na £1,500 wedi bod yn gostwng ers 2016–19

Cyfran o deuluoedd mewn tlodi gyda chynilion o lai na £1,500




Ffynhonnell: Dadansoddiad JRF o Aelwydydd Islaw'r Incwm Cyfartalog, 2022/23, DWP

Mae caledi ariannol wedi datblygu'n 'norm newydd' i lawer o gymunedau yng Nghymru (Davies ac Evans, 2024) wrth i'r argyfwng costau byw barhau i roi straen ar gyllidebau aelwydydd. Mae data diweddar yn tynnu sylw at duedd sy'n peri pryder: mae'r gyfran o unigolion sy'n benthycu arian oherwydd pwysau ariannol wedi cynyddu'n sydyn, o 17% ym mis Mai 2021 i fod yn 30% erbyn mis Medi 2024 – bron i 1 o bob 3 o bobl yng Nghymru.

Ffigwr 33: Mae cyfran y bobl sy'n benthycu arian o ganlyniad i bwysau ariannol wedi bod yn cynyddu ers 2021

Canran o bobl sy'n benthycu arian




Ffynhonnell: Sefydliad Bevan, Ciplun ar dlodi yn nhymor yr hydref 2024

Mae data diweddar yn dangos nifer gynyddol o deuluoedd sy'n methu â thalu o leiaf un bil. Ym mis Mai 2021, nododd 10% o unigolion eu bod o leiaf fis mewn dyled; erbyn mis Medi 2024, roedd hyn wedi codi i 15%, sy'n golygu bod 1 o bob 7 o bobl wedi methu â thalu eu biliau cartref am o leiaf mis. Cynyddodd cyfran y rhai sydd ar ei hôl hi gyda thaliadau cyfleustodau hefyd, o 6% ym mis Mai 2021 i 9% ym mis Medi 2024.

Ffigwr 34: Mae canran y bobl sydd ar ei hôl hi gyda biliau cyfleustodau, ac o leiaf un bil, wedi cynyddu ers mis Mai 2021.

Percentage of people behind on utility bills



Ffynhonnell: Sefydliad Bevan, Ciplun ar dlodi yn nhymor yr hydref 2024

Mae'r ffigurau hyn yn adlewyrchu mwy na straen ariannol – maen nhw'n datgelu'r dewisiadau anodd y mae llawer o gartrefi yng Nghymru yn eu hwynebu bob dydd. Heb gynilion, mae teuluoedd yn fwy tebygol o fod ar ei hôl hi gyda biliau hanfodol, mynd i ddyled llog uchel, neu hepgor pethau sylfaenol fel bwyd neu wres. Mae cynilion yn cynnig clustog hanfodol, gan helpu pobl i reoli costau annisgwyl a gosod dyfodol mwy diogel. Ond i lawer gormod, yn enwedig y rhai ar incwm isel, dydy cynilo ddim yn bosibl. Mae'r doll emosiynol – gan gynnwys straen, pryder, a straen mewn perthynas – yn dyfnhau mwy ar y caledi. Mae mynd i'r afael â'r bwlb hwn yn hanfodol i gryfhau gwydnwch ariannol ledled Cymru.

Iechyd a Thlodi

Ymhlith oedolion o oedran gweithio, mae pobl sy'n byw mewn tlodi yn fwy tebygol o ddioddef o iechyd gwael, yn enwedig pobl 35–49 oed mewn tlodi, sydd tua 1.6 gwaith yn fwy tebygol o fod mewn iechyd gwael na'r rhai nad ydyn nhw mewn tlodi. Mae'r bwlch yn llai ar gyfer grwpiau oedran hŷn, gyda phobl dros 65 oed mewn tlodi 1.2 gwaith yn fwy tebygol o fod mewn iechyd gwael o'i gymharu â'r rhai nad ydyn nhw mewn tlodi. Mae'n debyg bod y gwahaniaethau hyn yn cael eu gyrru gan ffactorau lluosog, gan gynnwys argaeledd a nifer y bobl sy'n cael sgrinio iechyd neu ddisgwyliad oes hirach aelwydydd incwm uwch a allai, serch hynny, gael problemau iechyd tua diwedd eu hoes.

Tabl 9: Canran yr oedolion sy'n byw mewn iechyd llai na da yn ôl statws tlodi, 2020–23

Oed/Statws cyflogaeth	Mewn tlodi (%)	Heb fod mewn tlodi (%)
16–34	25	21
35–49	35	26
50–64	51	37
65+	55	41
Cyflogedig	24	22
Anweithgar	53	48

Ffynhonnell: Dadansoddiad JRF o Aelwydydd Islaw'r Incwm Cyfartalog, 2022/23, DWP

Sylwer: Y categori di-waith heb ei arddangos oherwydd fod y sampl yn fach.

Mae anghydraddoldebau iechyd yn bodoli o'r crud ac yn parhau drwy gydol oes unigolyn. Yng Nghymru, mae data sy'n cymharu'r 20% o ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig yn dangos bylchau mewn disgwyliad oes. Yng Nghymru, roedd disgwyliad oes menywod yn yr 20% o ardaloedd lleiaf difreintiedig 6.3 mlynedd yn hirach nag yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, ac roedd disgwyliad oes dynion 7.5 mlynedd yn hirach (ONS, 2022). Mae disgwyliad oes dynion yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig wedi gostwng 4 mis a disgwyliad oes menywod 10 mis ers 2011–13 (Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru – Public Health Wales Observatory, 2022).


Mae'r un patrwm yn dod i'r amlwg wrth gymharu disgwyliad oes iach pobl yn ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig Cymru, gyda bwlch disgwyliad oes iach mawr rhwng y ddau. Y bwlch disgwyliad oes iach ydy 13.4 mlynedd i ddynion ac 16.9 mlynedd i fenywod yng Nghymru.

Y rhai 16–34 oed ac mewn tlodi sydd wedi gweld y cynnydd mwyaf yn y gyfran sy'n byw mewn iechyd is na da ac maen nhw bellach 30% yn fwy tebygol o fyw mewn iechyd is nag yr oedden nhw yn 2012–15. Pobl 35–49 oed a 50–64 oed ydy'r 2 grŵp sy'n gweld gostyngiad yn y gyfran sy'n byw mewn iechyd is na da ers 2012–15, o tua 10 pwynt canran yr un.

Ffigwr 35: Mae cyfran uwch o bobl 16–34 oed yn byw mewn iechyd is na da yn 2020–23 o'i gymharu â 2012–15, er bod grwpiau oedran eraill wedi aros yr un fath neu wedi gweld dirywiad.

● 2012–15 ● 2020–23

Canran oedolion mewn tlodi'n byw mewn llai na llawn iechyd



Ffynhonnell: Dadansoddiad JRF o Aelwydydd Islaw'r Incwm Cyfartalog, 2022/23, DWP

Addysg a Thlodi

Mae addysg yn bŵer wedi ei ddatganoli, sy'n golygu bod systemau addysg yn amrywio ar draws y 4 gwlad yn y DU. Felly dydy cyrhaeddiad yng Nghymru ddim yn uniongyrchol gymharol ag unrhyw un o genhedloedd eraill y DU. Yn y rhan fwyaf o achosion, dydy ysgolion a llywodraethau ddim yn casglu gwybodaeth am incwm rhieni, felly mae angen i ni ddefnyddio gwybodaeth arall sydd ar gael i nodi pryd y gallai plant fod yn tyfu i fyny mewn aelwyd mewn tlodi neu ag incwm isel/is.⁶ Yn yr adran hon, rydyn ni'n bennaf yn defnyddio data prydau ysgol am ddim (FSM). Mae myfyrwyr yn gymwys i gael FSM am amrywiaeth o resymau gan gynnwys os ydy eu rhieni'n derbyn budd-daliadau incwm isel fel Credyd Cynhwysol (os ydy incwm eu haelwyd ar ôl treth yn llai na £7,400) neu Gymhorthdal Incwm ([Turn2Us, 2024](#)). Mae'n bwysig nodi bod y trothwy incwm ar gyfer cymhwysedd i gael FSM wedi'i rewi, felly mae'r plant sy'n gymwys yn y teuluoedd tlotaf, ac yn gynyddol felly o'i gymharu â'r gorffennol.

Yn ddiweddar, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y gwahaniaeth cyrhaeddiad (mewn misoedd) yn ôl statws prydau ysgol am ddim (FSM). Ym Mlwyddyn 6, mae plant sy'n derbyn prydau ysgol am ddim dros 2 flynedd y tu ôl i fyfyrwyr nad ydyn nhw'n cael prydau ysgol am ddim o ran rhifedd (rhesymu) a darllen (Saesneg a Chymraeg) ac ychydig llai na 2 flynedd y tu ôl mewn rhifedd gweithdrefnol ([Llywodraeth Cymru, 2024c](#)).

Tabl 10: Cyrhaeddiad yng Nghymru

2022/23		Prydau Ysgol am Ddim (FSM)	Dim Prydau Ysgol am Ddim (Non-FSM)	Bwlch mewn cyrhaeddiad
16 oed	Canran y ceisiadau TGAU a ddyfarnwyd A*-C	40%	68%	29 pwyntiau canran

Ffynhonnell: [StatsWales](#)

Sylwer: Mae'r rhifau wedi'u talgrynnu. Dydy asesiad athrawon Cyfnod Allweddol 2 ddim bellach yn cael ei gyhoeddi yn ôl statws prydau ysgol am ddim ([Llywodraeth Cymru, 2019](#)).

Mae bylchau cyrhaeddiad yn parhau o addysg gynradd i addysg uwchradd. Yng Nghymru, mae bwlch o 29 pwynt canran yn y ceisiadau TGAU y dyfarnwyd gradd A*-C iddyn nhw.

Mae system addysg Cymru wedi newid dros amser gan gynnwys ei chwricwlwm, ei ffocws, ei harholiadau a'i mesuriadau llwyddiant, gan ei gwneud hi'n anodd olrhain newidiadau cymharol. Fodd bynnag, gallwn fod yn sicr bod bwlch wedi bod yn gyson rhwng y plant lleiaf a mwyaf difreintiedig ac nad ydy hyn yn beth newydd ac na fydd yn cau'n fuan gyda'r cyfraddau cynnydd presennol.

Yng Nghymru, arhosodd y bwlch cyrhaeddiad rhwng myfyrwyr sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a myfyrwyr nad ydyn nhw'n derbyn prydau ysgol am ddim o ran cyflawni graddau A*-C a ddyfarnwyd ar lefel TGAU yn gymharol gyson rhwng 2016/17 a 2018/19, gan aros tua 28 pwynt canran. Yn 2019/20, y flwyddyn yr effeithiwyd arni fwyaf gan bandemig Covid-19, gostyngodd y bwlch cyrhaeddiad i 25%. Fodd bynnag, mae hyn wedi cynyddu'n gyson ers hynny i fod yn 29 pwynt canran yn 2023/24, gyda chyrhaeddiad yn gostwng yn gyflymach i blant sy'n derbyn prydau ysgol am ddim nag i'r rhai nad ydyn nhw'n derbyn prydau ysgol am ddim. Sylwch y bydd y gymhariaeth hon yn cael ei heffeithio gan y trothwy incwm wedi'i rewi ar gyfer cymhwyso i gael prydau ysgol am ddim.

Atodiadau

Atodiad 1: Diffiniadau o Dlodi	73
Atodiad 2: Nodiadau ar effaith ansawdd data ar ddadansoddiad yn yr Arolwg Adnoddau Teuluol	77
Atodiad 3: Cwestiynau diogelwch bwyd yn yr Arolwg Adnoddau Teuluol	79

Atodiadau

Atodiad 1: Diffiniadau o Dlodi

Mae bod mewn tlodi yn golygu pan fydd eich adnoddau ymhell islaw'r hyn sy'n ddigon i ddiwallu eich anghenion lleiaf, gan gynnwys cymryd rhan mewn cymdeithas. Mae yna amrywiaeth o ffyrdd y gellir mesur tlodi. Mae'r prif fesurau a ddefnyddiwn yn yr adroddiad hwn yn cynnwys y canlynol:

- **Tlodi cymharol ar ôl costau tai (AHC)** – hynny yw, lle mae incwm aelwyd rhywun ar ôl iddyn nhw dalu eu costau tai yn is na 60% o'r canolrif, wedi'i addasu ar gyfer maint a chyfansoddiad y teulu. Mae hyn yn edrych ar a ydy incwm aelwydydd tlotach yn dal i fyny â'r incwm cyfartalog.
- **Tlodi cymharol cyn costau tai (BHC)** – yn debyg i'r Tlodi cymharol AHC, dyma lle mae incwm aelwyd rhywun yn is na 60% o'r canolrif, wedi'i addasu ar gyfer maint a chyfansoddiad y teulu, ond heb fod yn tynnu costau tai o'r cyfanswm. Mae hyn yn edrych ar a ydy incwm aelwydydd tlotach yn dal i fyny ag incwm cyfartalog ond dydy e ddim yn ystyried costau tai gwahanol rhwng teuluoedd.
- **Tlodi absoliwt ar ôl costau tai** – hynny yw, lle mae incwm aelwyd rhywun islaw llinell sefydlog yn seiliedig ar linell dlodi'r flwyddyn flaenorol wedi'i haddasu ar gyfer chwyddiant (a osodwyd ar 60% o'r incwm canolrifol ar ôl costau tai yn 2010/11). Mae hyn yn edrych ar a ydy incwm aelwydydd tlotach yn cynyddu'n gyflymach na chwyddiant. Nid oes unrhyw reswm dadansoddol pam ei fod wedi'i osod yn 2010/11; yn hytrach, mae hwn yn ddewis hanesyddol o ran polisi.

Un peth pwysig i'w nodi ydy bod y mesurau hyn yn seiliedig ar incwm aelwydydd ac yn amrywio o ran pa mor sensitif ydyn nhw i newidiadau yn y costau byw a chwyddiant uchel. O'r mesurau hyn, tlodi absoliwt sy'n cael ei effeithio'n fwyaf uniongyrchol gan newidiadau uniongyrchol yn y costau byw, wrth i'r llinell dlodi godi oherwydd chwyddiant. Mae tlodi cymharol (cyn ac ar ôl costau tai) yn llai sensitif i newidiadau yn y costau byw, gyda newidiadau yn y ddau yn cael eu pennu'n bennaf gan sut mae incwm aelwydydd tlotach yn cymharu â'r rhai sydd ag incwm uwch.

Yn yr adroddiad hwn, pan ddefnyddiwn ni'r term 'tlodi', rydyn ni'n defnyddio'r gyfradd tlodi gymharol ar ôl costau tai i fesur tlodi oni nodir yn wahanol.

Gwneir addasiadau (a elwir yn gywerthedd – equivalisation) i incwm i’w gwneud yn gymaradwy ar draws aelwydydd o wahanol feintiau a phatrwm. Er enghraifft, byddai’r broses gywerthedd yn addasu incwm person sengl tuag i fyny fel y gellir cymharu eu hincwm yn uniongyrchol â safon byw cwpl. Rhoddir y trothwyon tlodi cymharol ar ôl costau tai a beth fyddai incwm canolrifol yr aelwyd pe bai’n cael ei addasu i gyd-fynd â gwahanol fathau o deuluoedd yn Nhabl 9.

Tabl 11: Mae trothwyon tlodi yn amrywio yn ôl math o deulu

Math o aelwyd	Incwm canolrifol		Trothwy Tlodi (60% o'r canolrif)		Trothwy Tlodi Dwys (50% o'r canolrif)		Trothwy Tlodi Dwys Iawn (40% o'r canolrif)	
	Wythnosol	Blynnyddol	Wythnosol	Blynnyddol	Wythnosol	Blynnyddol	Wythnosol	Blynnyddol
Rhiant unigol gyda 2 o blant, un 14 oed a throsodd ac un o dan 14 oed	£654	£34,100	£392	£20,500	£327	£17,100	£262	£13,600
Cwpl gyda 2 o blant, un 14 oed a throsodd ac un o dan 14 oed	£883	£46,000	£530	£27,600	£442	£23,000	£353	£18,400
Cwpl gyda 2 o blant, y ddau dan 14 oed	£763	£39,800	£458	£23,900	£382	£19,900	£305	£15,900
Oedolyn, dim plant	£316	£16,500	£190	£9,900	£158	£8,200	£126	£6,600
Cwpl heb blant	£545	£28,400	£327	£17,100	£273	£14,200	£218	£11,400

Ffynhonnell: Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog, 2022/23, DWP

Mae dangosyddion eraill y gallech eu gweld yn yr adroddiad hwn wedi’u trafod yn Nhabl 10. Defnyddir y rhain am sawl rheswm, gan gynnwys oherwydd prinder gwybodaeth i gyfrifo un o’r mesurau tlodi uchod neu i ddangos persbectif ychydig yn wahanol ar brofiad pobl.

Tabl 12: Diffiniadau o fesurau tlodi, incwm isel ac amddifadedd

Mesur	Sut caiff ei fesur?	Beth mae hyn yn ei ddangos?
Degraddau incwm	Rydyn ni'n aml yn siarad am bobl sy'n byw ar incwm isel sydd yn y degraddau incwm 1 a 2 (yr 20% isaf o incwm, a elwir hefyd yn 'y gwintel isaf'). Rydyn ni'n cyfrifo hyn trwy gyfwerth incwm ac yna eu trefnu o'r incwm isaf i'r incwm uchaf a dewis yr 20% isaf o bobl neu aelwydydd.	Defnyddir y mesur hwn yn aml pan nad oes digon o wybodaeth i fesur tlodi cymharol. Mae'n fesur cymharol gan fod y dosbarthiad incwm yn newid dros amser ac mae'n caniatáu inni gymharu profiadau aelwydydd incwm isel dros amser. Mae hefyd yn 'brocsi' da ar gyfer tlodi cymharol, gan fod cyfradd tlodi'r DU wedi bod rhwng 20% a 22% dros yr 20 mlynedd diwethaf, felly mae'n gorgyffwrdd yn bennaf â'r 2 ddegradd isaf.
Cyfuniad o amddifadedd incwm isel ac amddifadedd materol.	Y gyfran o bobl sy'n byw mewn teuluoedd na allan nhw fforddio ystod o nwyddau a gwasanaethau sylfaenol, fel 'cael côt aeaf gynnes' a 'chadw'r tŷ'n dwym', yn ogystal â chael BHC incwm isel (llai na 70% o'r canolrif).	Mae amddifadedd materol yn debygol o gynyddu os bydd tlodi cymharol (BHC) yn cynyddu a/neu os bydd cost hanfodion yn cynyddu, er enghraifft, oherwydd chwyddiant.
Mynegai amddifadedd lluosog	Mesurir amddifadedd lluosog ar lefel leol i gofnodi'r manteision a'r anfanteision a brofir, ar gyfartaledd, gan bobl sy'n byw yn yr ardal honno. Mae'n cynnwys agweddau lluosog ar amddifadedd. Er enghraifft, mae'n cynnwys amddifadedd incwm yn ogystal â meysydd eraill fel cyflogaeth, addysg, iechyd a thai.	Mae mynegeion amddifadedd lluosog yn dda am ddangos y cyfleoedd neu'r rhwystrau y gallai pobl, sy'n byw mewn ardal leol, eu hwynebu. Mae hyn yn ddefnyddiol ar gyfer nodi ardaloedd a allai fod angen cymorth ychwanegol arnyn nhw trwy ddarpariaeth gwasanaethau lleol yn ogystal ag amlygu meysydd lle gallai fod yn rhaid i bobl oresgyn rhwystrau ychwanegol. Dydy hyn ddim yn ddull da am nodi heriau y mae teuluoedd penodol yn eu hwynebu. Er enghraifft, mae'n bosibl i deuluoedd fod mewn tlodi o hyd mewn ardal â lefel isel iawn o amddifadedd.
Tlodi parhaus	Mae tlodi parhaus yn cynnwys pobl sydd wedi byw mewn tlodi dros gyfnod o amser, a fesurir fel arfer fel bod mewn tlodi cymharol (AHC) mewn 3 neu fwy o'r 4 blynedd diwethaf.	Mae tlodi parhaus yn dangos i ba raddau y mae teuluoedd yn parhau i fod wedi eu caethiwo mewn tlodi dros amser.

Mesur	Sut caiff ei fesur?	Beth mae hyn yn ei ddangos?
Tlodi dwys a thlodi dwys iawn.	Mae tlodi dwys a thlodi dwys iawn yn amrywiadau o dlodi cymharol (AHC). Tlodi dwys ydy pan fo incwm cartref rhywun yn is na 50% o'r canolrif a thlodi dwys iawn ydy pan fo incwm eu cartref yn is na 40% o'r canolrif.	Mae tlodi dwys a dwys iawn yn dangos pa mor bell ydy teuluoedd mewn tlodi o'r llinell dlodi. Os ydy tlodi dwys neu ddwys iawn yn cynyddu ond bod tlodi'n aros yr un fath, mae hyn yn dangos bod pobl mewn tlodi yn symud ymhellach i ffwrdd o'r incwm canolrifol ac yn ddyfnach i dlodi.
Mesur craidd tlodi'r Comisiwn Metrigau Cymdeithasol	Mae mesur y Comisiwn Metrigau Cymdeithasol yn nodi a oes gan rywun adnoddau materol isel o'i gymharu â chostau anochel, gan gynnwys costau tai. Mae hyn yn edrych y tu hwnt i incwm ar bob adnodd materol, yn asesu costau ychwanegol, gan gynnwys y rhai sy'n ganlyniad i anabledd a gofal plant, ac yn cynnwys pobl sy'n cysgu ar y stryd (Y Comisiwn Metrigau Cymdeithasol, 2018). Mae hefyd yn defnyddio llinell dlodi wedi'i llyfnhau i osgoi newidiadau o flwyddyn i flwyddyn a allai fod yn gamarweiniol.	Mae'r mesur hwn yn fwy cynhwysfawr ac felly'n ddefnyddiol wrth ddeall incwm o'i gymharu ag incwm pobl eraill yn ogystal â'r costau anochel y mae'n rhaid i deuluoedd wario arian arnyn nhw, fel gofal plant a thai.

Atodiad 2: Nodiadau ar effaith ansawdd y data ar y dadansoddiad yn yr Arolwg Adnoddau Teuluol

Mae mwyafrif y canfyddiadau yn yr adroddiad hwn yn dod o ddata a gasglwyd yn yr Arolwg Adnoddau Teuluol (FRS) yn 2022/23 a chyn hynny, a'r data Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog (HBAI) a gynhyrchwyd o hyn. Y setiau data hyn ydy ffynhonnell swyddogol y DU o amcangyfrifon tlodi. Fe'u defnyddir i amcangyfrif lefelau cyfredol tlodi ledled y DU ac a ydy neu sut mae'r gyfradd tlodi wedi newid dros amser.

Roedd y gwaith maes ar gyfer arolwg 2022/23 yn debyg i'r hyn a ddefnyddiwyd cyn pandemig Covid-19, gan gael ei gynnal wyneb yn wyneb yn bennaf, yn wahanol i 2020/21 a 2021/22 pan effeithiodd cyfyngiadau a oedd ar waith yn ystod y pandemig ar gasglu data a lle cynhaliwyd cyfweiliadau dros y ffôn. Maint y sampl ar gyfer yr arolwg yng Nghymru yn 2022/23 oedd y mwyaf erioed, sef tua 1,500 o gartrefi, cynnydd ar feintiau'r samplau ar gyfer y blynyddoedd blaenorol, a oedd rhwng tua 750 a 900 o gartrefi ym mlynnyddoedd yr arolygon ar gyfer 2011/12 hyd at 2019/20, ac yna 2021/22. Mae rhanbarthau daearyddol yn rhan o'r blociau adeiladu ar gyfer sampl yr FRS, sy'n golygu na ddylai cyfran y sampl yng Nghymru ostwng islaw lefel yr isafswm.

Mae'n bwysig nodi bod yr Adran Gwaith a Phensiynau wedi cynghori na ddylid cynnwys data 2020/21 mewn cyfrifiadau o unrhyw gyfartaleddau 3 blynedd ar gyfer amcangyfrifon, a ddefnyddir drwy gydol yr adroddiad hwn. Mae hyn yn golygu mai dim ond cyfartaledd o amcangyfrifon o ddata 2021/22 a 2022/23 yw'r ffigurau diweddaraf a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar gyfartaleddau 3 blynedd, mewn gwirionedd. Mae maint sampl mwy 2022/23 yn golygu nad ydy nifer yr achosion yn y ddwy flynedd arolwg ddiweddaraf yn llawer is na maint y sampl 3 blynedd cyn y pandemig.

O ran pwyntiau eraill i'w nodi yn y data arolwg 2022/23, mae data incwm yn cynnwys taliadau costau byw wedi'u priodoli. Edrychodd y cyfrifiad ar gymhwysedd ar ddyddiad y cyfweiliad, a thybiwyd y byddai'r taliad yn para tan i'r ymatebydd dderbyn y taliad nesaf o'r math hwnnw.

Sylwer nad ydy'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) wedi cynnwys amcangyfrifon poblogaeth y DU ac aelwydydd preifat yn seiliedig ar Gyfrifiad 2021 (2022 ar gyfer yr Alban) eto yn eu cyfrifiad gros o'r sampl i amcangyfrifon o'r boblogaeth. Pan wneir hyn, mae'n debygol iawn y bydd diwygiadau i ganlyniadau'r arolwg o 2011/12 ymlaen.

Dyma wybodaeth gefndirol fydd yn fuddiol:

- Adroddiad ar Aelwydydd sydd ag Incwm Is na'r Cyfartaledd – Households Below Average Income series: Quality and methodology information report FYE 2023: <https://www.gov.uk/government/statistics/households-below-average-income-for-financial-years-ending-1995-to-2023/households-below-average-income-series-quality-and-methodology-information-report-fye-2023>
- Arolwg o Adnoddau Teuluol – Family Resources Survey: Background information and methodology: <https://www.gov.uk/government/statistics/family-resources-survey-financial-year-2022-to-2023/family-resources-survey-background-information-and-methodology>
- Strategaeth Rhyddhau: Arolwg o Adnoddau Teuluol – Family Resources Survey: Release strategy: <https://www.gov.uk/government/publications/family-resources-survey-release-strategy/family-resources-survey-release-strategy>

Atodiad 3: Cwestiynau diogelwch bwyd yn yr Arolwg Adnoddau Teuluol

Yn yr Arolwg Adnoddau Teuluol, darllenir 3 datganiad am ddiogelwch bwyd i'r ymatebydd a gofynnir iddo/iddi a oedd y datganiad yn 'aml yn wir', 'weithiau'n wir' neu 'byth yn wir' iddo/iddi yn ystod y 30 diwrnod diwethaf.

1. Roedden ni'n poeni a fyddai ein bwyd yn rhedeg allan cyn i ni gael arian i brynu rhagor.
2. Doedd y bwyd a brynwyd gennym ni ddim yn para, ac nid oedd gennym ni arian i gael mwy.
3. Doedden ni ddim yn gallu fforddio bwyta prydau cytbwys.

Oni bai bod yr ateb i bob un o'r 3 chwestiwn yn 'ddim yn wir byth', gofynnir y cwestiynau canlynol i'r ymatebydd:

1. A wnaethoch chi (neu oedolion eraill yn eich cartref) hepgor neu dorri prydau bwyd oherwydd nad oedd digon o arian ar gyfer bwyd? Ar sawl diwrnod y digwyddodd hyn?
2. A wnaethoch chi (neu oedolion eraill yn eich cartref) erioed fwyta llai nag yr oeddech chi'n teimlo y dylech chi oherwydd nad oedd digon o arian ar gyfer bwyd?
3. Oeddech chi (neu oedolion eraill yn eich cartref) erioed yn llwglyd ond heb fwyta oherwydd nad oedd digon o arian ar gyfer bwyd?
4. Oeddech chi (neu oedolion eraill yn eich cartref) wedi colli pwysau oherwydd nad oedd digon o arian ar gyfer bwyd?
5. Oeddech chi (neu oedolion eraill yn eich cartref) erioed wedi peidio â bwyta am ddiwrnod cyfan oherwydd nad oedd digon o arian ar gyfer bwyd? Ar sawl diwrnod y digwyddodd hyn?

O'r cwestiynau, cynhyrchir sgôr 10 pwynt ar gyfer pob aelwyd. Sgorir un pwynt am bob ateb 'cadarnhaol', hynny yw, atebion 'yn aml yn wir', 'weithiau'n wir' ac 'ydw' (gyda phwynt ychwanegol os dewisir '3 diwrnod neu fwy' ar gyfer ail ran cwestiynau 4 ac 8).

Diogelwch bwyd uchel (sgôr = 0): nid oes gan yr aelwyd unrhyw broblem, na phryder, ynghylch cael mynediad cyson at ddigon o fwyd.

Diogelwch bwyd ymylol (sgôr = 1 neu 2): roedd gan yr aelwyd broblemau ar adegau, neu bryder ynghylch cael mynediad at fwyd digonol, ond ni chafodd ansawdd, amrywiaeth a maint y bwyd wnaethon nhw ei gymryd eu lleihau'n sylweddol.

Diogelwch bwyd isel (sgôr = 3 i 5): gostyngodd yr aelwyd yr ansawdd, amrywiaeth a dymunoldeb eu dietau, ond ni chafodd maint y bwyd gymerwyd na 'u patrymau bwyta arferol eu tarfu'n sylweddol.

Diogelwch bwyd isel iawn (sgôr = 6 i 10): ar adegau yn ystod y 30 diwrnod diwethaf, tarfwyd ar batrymau bwyta un neu fwy o aelodau'r aelwyd a lleihawyd ar y bwyd gymerwyd oherwydd bod yr aelwyd yn brin o arian ac adnoddau eraill ar gyfer bwyd.

Aelwydydd diogel o ran bwyd ydy'r rhai â statws diogelwch bwyd uchel neu ymylol.

Aelwydydd ansicr o ran bwyd ydy'r rhai â statws diogelwch bwyd isel neu isel iawn.

Nodiadau

1. Mae'r adran hon wedi'i diweddarau i gynnwys y data diweddaraf ar gyfer 2021–24, a gyhoeddwyd ar ôl i'r rhan fwyaf o'r dadansoddiad ar gyfer yr adroddiad hwn gael ei gwblhau. Felly, y data diweddaraf ar gyfer adrannau eraill fydd 2020–23.
2. Diffinnir person/unigolyn fel plentyn os yw rhwng 16 a 19 oed ac os: nad yw'n briod nac mewn partneriaeth sifil nac yn byw gyda phartner; yn byw gyda rhieni/oedolyn cyfrifol ac mewn addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch neu mewn hyfforddiant di-dâl gan y llywodraeth.
3. Diffinnir anabledd yn ôl y diffiniad craidd yn Neddf Cydraddoldeb 2010: 'nam corfforol neu feddyliol sydd ag effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar y gallu i gyflawni gweithgareddau dyddiol arferol'.
4. Mae cyflyrau iechyd meddwl yn cynnwys anhawster gyda dysgu, deall neu ganolbwyntio, cof, iechyd meddwl, ac anawsterau cymdeithasol neu ymddygiadol (er enghraifft yn gysylltiedig ag awtistiaeth, anhwylder diffyg canolbwyntio neu syndrom Asperger). Mae anabledd corfforol yn cynnwys anhawster gyda golwg, clyw, symudedd, dehurwydd, stamina, anadlu neu flinder. Mae'r categori anabledd arall yn gategori ymateb penodol sydd wedi'i gynnwys yn yr arolwg i gynnwys unrhyw anabledd arall nad yw wedi'i gynnwys yn y rhestr ymateb a roddir. Dim ond pobl sy'n dweud bod eu cyflwr yn cyfyngu llawer neu ychydig ar eu bywyd bob dydd sydd wedi'u cynnwys yn y categorïau hyn.
5. Mae ffigurau yn yr adran hon yn defnyddio'r 3 blynedd o arolygon defnyddiadwy gyda'r data diogelwch bwyd, 2019/20, 2021/22 a 2022/23.
6. Mae pobl yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim am amrywiaeth o resymau gan gynnwys yn derbyn budd-daliadau incwm isel fel Credyd Cynhwysol (os yw incwm eu cartref ar ôl treth yn llai na £7,400) neu Gymhorthdal Incwm ([Turn2Us, 2024](#)).

Cyfeiriadau

Arolwg Blynnyddol Oriau ac Enillion – Annual Survey of Hours and Earnings (ASHE) (2024) [Employee earnings and hourly pay in the UK, Wales/Cymru: 2024](#)

Sefydliad Bevan Foundation (2019) [A Welsh benefits system](#)

Sefydliad Bevan Foundation (2023) [A snapshot of poverty in Summer 2023](#)

Carers UK (2024) [State of Caring Survey 2024. The impact of caring on: finances](#)

Coram (2025) [Childcare Survey 2025](#)

CSJ (2020) [Facing the facts: Ethnicity and disadvantage in Britain – disparities in education, work, and family](#)

Davies, J. Evans, S. (2024) [A snapshot of poverty in autumn 2024](#)

Yr Adran Gwaith a Phensiynau – Department for Work and Pensions (DWP) (2024) [Income dynamics: 2010 to 2022](#)

End Child Poverty (2024) [Local child poverty statistics](#)

Ferraz-Luz, S. (2024) [Discretionary Assistance Fund, analysis report: 2024](#)

Fitzpatrick, S. Bramley, G. Treanor, M. Blenkinsopp, J. McIntyre, J. Johnsen, S. McMordie, L. (2023) [Destitution in the UK 2023](#)

Huang, F. Bentley, L. Cai, Y. Hodgson, K. Song, J. Davies, A. R. (2021) [Unpaid carers in Wales: The determinants of mental wellbeing](#)

Matejic, P. Schmuecker, K. Ibison, Y. Taylor, I. (2024) [Bangladeshi, Black African and Pakistani households at higher risk of very deep, long-term poverty](#)

Mirza, H. Warwick, R. (2024) [Race and ethnic inequalities](#)

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol – Office for National Statistics (ONS) (2022) [Health state life expectancies by national deprivation quintiles, Wales: 2018 to 2020](#)

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol – Office for National Statistics (ONS) (2023) [Active business enterprises per population by area and year, Wales: 2023](#)

- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol – Office for National Statistics (ONS) (2024) [Energy efficiency of housing in England and Wales: 2024](#)
- Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru – Public Health Observatory Wales (2022) [Health expectancies in Wales with inequality gap](#)
- Schmuecker, K. Bestwick, M. (2023) [An income safety net](#)
- Social Metrics Commission (2018) [Social Metrics Commission 2018 report](#)
- Turn2Us (2024) [Bringing up a child – Free school meals](#)
- Llywodraeth Cymru (2019) [Achievement and entitlement to free school meals: 2019](#)
- Llywodraeth Cymru (2021) [Ethnic group, national identity, language, and religion, Wales: Census 2021](#)
- Llywodraeth Cymru (2024a) [Anti-racist Wales Action Plan 2024 update](#)
- Llywodraeth Cymru (2024b) [Welsh Index of Multiple Deprivation \(full Index update with ranks\): 2019](#)
- Llywodraeth Cymru (2024c) [Patterns of attainment in reading and numeracy: September 2018 to August 2023](#)
- Llywodraeth Cymru (2025) [Dwelling stock estimates by year and tenure](#)
- Woods, M. (2024) [Recognising and addressing rural poverty in Wales](#)
- Wright, S. Field, S. Moss, C. Frounks, A. Veruete-McKay, L. (2024) [Disability price tag 2024: Living with the extra cost of disability](#)

Mae fersiwn pdf o'r cyhoeddiad hwn ar gael o wefan JRF www.jrf.org.uk.
Gellir cael copïau pellach o'r adroddiad hwn, neu unrhyw gyhoeddiad arall
gan JRF, o wefan JRF www.jrf.org.uk/publications.

Cedwir pob hawl. Caniateir atgynhyrchu'r adroddiad hwn drwy lungopïo
neu ddulliau electronig at ddibenion anfasnachol. Fel arall, ni cheir
atgynhyrchu unrhyw ran o'r adroddiad hwn, na'i addasu, na'i storio mewn
system adalw na'i drosglwyddo mewn unrhyw fodd, boed yn electronig, yn
fecanyddol, drwy lungopïo, neu fel arall heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen
llaw gan Joseph Rowntree Foundation.

© Joseph Rowntree Foundation 2025

Cyhoeddwyd gyntaf Mehefin 2025 gan Joseph Rowntree Foundation

Clawr gwaith celf gan Holly Leese ar gyfer JRF

Cysodwyd gan Pinnacle Graphic Design Ltd

Wedi'i olygu a'i brawfddarllen gan Ann Crossley ar gyfer JRF

Joseph Rowntree Foundation
The Homestead
40 Water End
York YO30 6WP
www.jrf.org.uk